



Cyngor **Abertawe**  
**Swansea** Council

**Adran Addysg**

# **Polisi Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd**

**Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019**

**Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020**

**Cyngor Abertawe  
Y Ganolfan Ddinesig  
Heol Ystumllwynarth  
Abertawe  
SA1 3SN**

**Rhif ffôn: (01792) 636000**

**E-bost: [Education@Swansea.gov.uk](mailto:Education@Swansea.gov.uk)**

**Gwefan: [www.Swansea.gov.uk](http://www.Swansea.gov.uk)**

**Enw'r person sy'n gyfrifol am gynnal y polisi hwn:**

**Mark Sheridan (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr Agored i Niwed)**

**Cynnwys**

Adran		
1	Egwyddorion Allweddol	Tudalen 4
2	Gofynion Cyfreithiol yr Awdurdod Lleol	Tudalen 4
3	Rolau a Chyfrifoldebau	Tudalen 5
4	Creu Amgylchedd Hygyrch	Tudalen 6
5	Rhannu Gwybodaeth	Tudalen 8
6	Gweithdrefnau a Chadw Cofnodion ar gyfer Rheoli Anghenion Gofal Iechyd Dysgwyr	Tudalen 8
7	Storio, Mynediad a Gweinyddu Meddyginiaeth a Dyfeisiau	Tudalen 10
8	Gweithdrefnau Brys	Tudalen 14
9	Hyfforddiant	Tudalen 14
10	Addysg heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)	Tudalen 15
11	Cludiant Ysgol	Tudalen 15
12	Adolygu Polisiâu, Trefniadau a Gweithdrefnau	Tudalen 17
13	Trefniadau Yswiriant	Tudalen 17
14	Gweithdrefn Gwyno	Tudalen 17
15	Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)	Tudalen 18
16	Arfer Annerbyniol	Tudalen 20
	Manylion Cyswllt	Tudalen 21
Atodiad	Polisi Enghreifftiol Ysgol	Tudalen 22

## **Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheolaeth anghenion gofal iechyd dysgwyr.**

### **1. Egwyddorion Allweddol**

Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd fel bod ganddynt fynediad llawn i addysg, gan gynnwys holl weithgareddau ac addysg gorfforol oddi ar y safle.

Rydym yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr, dysgwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod anghenion dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu deall yn iawn a'u cefnogi'n effeithiol. Rydym yn gwneud hyn drwy wrando ar farn a dymuniadau'r dysgwr a'r rhiant yn ogystal â chyngor gweithwyr proffesiynol ym maes addysg ac iechyd.

Lle y bo'n bosibl, rydym yn cydweithio ag ysgolion i helpu'r dysgwr i feithrin dealltwriaeth a hyder fel y gall reoli ei anghenion gofal yn gynyddol yn ddibynnol ar ei allu i wneud hynny.

Rydym yn sicrhau bod staff mewn lleoliadau addysg yn gallu cael gafael ar hyfforddiant priodol fel bod anghenion gofal iechyd dysgwyr yn cael eu cefnogi'n briodol.

Deallwn fod gan bob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd hawl i addysg llawn a bod Cyngor Abertawe yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Wrth wneud trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwr, rydym yn ystyried yr effaith ar eu haddysg, eu cyrhaeddiad a'u llesiant. Mae unrhyw drefniadau hefyd yn ystyried dyletswyddau diogelu ehangach tra'n ceisio sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad ac yn mwynhau'r un cyfleoedd.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym yn gwneud addasiadau rhesymol i gydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf er mwyn peidio â gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr anabl.

### **2. Gofynion Cyfreithiol yr Awdurdod Lleol**

Rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried y canllawiau a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru: Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd, dogfen rhif: 215/2017 wrth gyflawni ei dyletswyddau o ran hybu llesiant plant a phobl ifanc, gan gynnwys diwallu eu hanghenion gofal iechyd (Adran 175, Deddf Addysg 2002).

O dan adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu addysg addas ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol nad ydynt o bosibl yn ei dderbyn oherwydd anghenion gofal iechyd fel salwch neu fel arall.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu gwasanaethau ataliol a gwneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng asiantaethau a darparwyr.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i wneud addasiadau rhesymol a pharatoi a gweithredu strategaeth hygyrchedd sy'n anelu at:

- Cynyddu cyfranogiad dysgwyr anabl
- Gwella amgylcheddau ffisegol ysgolion i wella hygyrchedd
- Gwella'r broses o ddarparu gwybodaeth sydd o fewn cyrraedd pawb.

Abertawe oedd un o'r awdurdodau cyntaf i gydnabod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac fel rhan o'i Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb, mae'n cynnwys yr effaith ar hawliau plant.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016 a Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Ymhellach, mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi sylw dyledus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn arbennig y pum ffordd o weithio gan sicrhau cydbwysedd rhwng polisi ac ymarfer anghenion tymor byr a nodau cynaliadwy tymor hwy. Rydym hefyd yn ceisio asesu effaith amcanion polisi ar nodau llesiant asiantaethau eraill a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y broses o ddatblygu polisi ac yn cydweithio ag eraill i helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant drwy ddull ataliol.

### **3. Rolau a Chyfrifoldebau - amlinellwch rolau a chyfrifoldebau'r canlynol:**

#### **Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol (ALI) yn gweithio gydag ysgolion, y byrddau iechyd lleol, rhieni/gofalwyr a gofalwyr a dysgwyr i sicrhau bod anghenion gofal iechyd yn cael eu nodi a bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud i ddiwallu'r anghenion hynny.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn:

- i. Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael addysg addas.
- ii. Gwneud trefniadau i ddarparu addysg addas pan na fyddai dysgwr o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod oherwydd ei iechyd.
- iii. Gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc anabl dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion. Bydd hyn yn cynnwys datblygu Strategaeth Hygyrchedd.
- iv. Hyrwyddo cydweithrediad rhwng gwahanol gyrff er mwyn gwella llesiant corfforol a meddyliol dysgwyr, gan gynnwys gwneud trefniadau i rannu gwybodaeth.
- v. Gwneud darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed a dysgwyr mewn ysgolion cynradd.

- vi. Darparu cymorth, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys sut i ddiwallu anghenion hyfforddiant staff yr ysgol, fel y gall cyrff llywodraethu sicrhau'r cymorth a nodir yn y cynllun gofal iechyd unigol.
- vii. Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Abertawe.

### **Cyfarwyddwr Addysg**

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn gyfrifol am sicrhau bod gan y Cyngor Bolisi Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd a bod pob ysgol yn cyhoeddi Polisi Anghenion Gofal Iechyd Ysgol. Dylai'r Cyfarwyddwr hefyd geisio sicrhau bod gan bob ysgol:

- Cynllun Hygyrchedd
- Polisi Derbyn

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gan yr awdurdod Strategaeth Hygyrchedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n nodi sut y bydd yr awdurdod yn gwella amgylcheddau ffisegol ysgolion at ddiben cynyddu'r graddau y mae dysgwyr anabl yn gallu manteisio ar addysg a gwasanaethau a ddarperir neu a gynnigir gan yr ysgolion.

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn sicrhau bod gwasanaethau allweddol, gan gynnwys Swyddogion Lles Addysg, Swyddog Cymorth Cynhwysiant, Cydgysylltydd Amddiffyn Plant, ysgolion a chyrrff llywodraethu yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

Nodir cyfrifoldebau ysgolion a chyrrff llywodraethu yn y polisi enghreifftiol ar gyfer anghenion gofal iechyd ysgol.

### **4. Creu Amgylchedd Hygyrch**

Bydd gan lawer o ddysgwyr angen gofal iechyd tymor byr ar ryw adeg a allai effeithio ar eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol. Efallai y bydd gan ddysgwyr eraill anghenion gofal iechyd sylweddol neu hirdymor sy'n effeithio ar eu gallu gwybyddol neu gorfforol, eu hymddygiad neu eu cyflwr emosiynol. Mae gan yr ALI ddyletswydd i sicrhau bod ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRUs) yn hyrwyddo cynwysoldeb a hygyrchedd yn yr ystyr lawnaf i bob dysgwr ag anghenion gofal iechyd. Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol a hygyrch i bob dysgwr. Nodir ein cynlluniau ar gyfer gwella hygyrchedd ein hysgolion yn Strategaeth Hygyrchedd a Chynllun Hygyrchedd - Canllawiau i Ysgolion yr Awdurdod Lleol. Dylai pob ysgol ddatblygu cynllun hygyrchedd ysgol, gan ddilyn canllawiau'r ALI i amlinellu sut y maent yn creu amgylchedd hygyrch i bob dysgwr.

Mae'r ALI yn cefnogi ysgolion i sicrhau eu bod yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar bob agwedd ar fywyd yr ysgol drwy ddarparu cymhorthion, gwasanaethau a staff hyfforddedig priodol.

### **a) Holl weithgareddau oddi ar y safle**

Mae'r ALI yn annog ysgolion i gefnogi pob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd oddi ar y safle gan gynnwys tripiâu a gweithgareddau preswyl a gwneud addasiadau rhesymol i dripiâu ac ymweliadau preswyl er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn gan bob dysgwr.

Dylai staff fod yn ymwybodol o sut y gallai anghenion gofal iechyd dysgwr effeithio ar gyfranogiad, a cheisio darparu ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n cynyddu lefel cyfranogiad y dysgwr<sup>1</sup>. Mae'n rhaid i ysgolion rannu gwybodaeth briodol gyda darparwyr oddi ar y safle yn ôl yr angen gyda chaniatâd rhieni a gofawyr a gofyn am farn y dysgwr hefyd.

### **b) Rhyngweithiadau cymdeithasol**

Mae'r ALI yn annog ysgolion i fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau cymdeithasol strwythuredig ac anstrwythuredig, megis yn ystod egwyliâu, clwb brechwast, cynrychiadau, clybiau ar ôl oriau ysgol ac ymweliadau preswyl. Rhaid i staff fod yn ymwybodol o rwystrau posibl i gynhwysiant a gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys.

Mae'r ALI yn annog ysgolion i fod ag ethos cryf sy'n hybu cynhwysiant a hawliau'r plentyn ac yn defnyddio dulliau adferol i fynd i'r afael â phroblemau posibl bwlio ac allgau cymdeithasol.

### **c) Ymarfer a gweithgarwch corfforol**

Mae'r ALI yn deall pa mor bwysig yw bod pob dysgwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac yn annog ysgolion i wneud addasiadau priodol i chwaraeon a gweithgareddau eraill er mwyn eu gwneud yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys clybiau ar ôl oriau ysgol a chwaraeon tîm.

Rhaid i ysgolion sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwyr wrth gynllunio gweithgareddau corfforol a gofyn am farn y dysgwr, eu rhieni/gofawyr a gweithwyr iechyd proffesiynol wrth gynllunio. Lle bo modd, rhaid i ysgolion sicrhau bod pob gweithgaredd corfforol o fewn cyrraedd pawb.

### **ch) Rheolaeth bwyd**

Mae'r ALI yn annog ysgolion i ystyried yn ofalus anghenion deietegol dysgwyr ag anghenion gofal iechyd ac i sicrhau bod staff y gegin yn gallu darparu rhestrau o gynhwysion ac arddangos unrhyw alergenau posibl ar gyfer y prydau

---

<sup>1</sup> Gall y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb fod yn berthnasol yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

y maent yn eu cyflenwi. Rhaid i ysgolion ddeall y gall fod angen i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd fwyta ac yfed yn y dosbarth a bod byrbrydau ar gael.

Mae'n hollbwysig bod gofynion y dysgwyr unigol o ran bwyd a diet a fwyteir yn cael eu nodi yn eu cynllun gofal iechyd unigol a'u cyfleu i'r holl staff.

#### **d) Aseidiadau risg**

Mae'r ALI yn annog cynnal aseiad risg priodol o'r holl weithgareddau mewn ysgolion a'u cofnodi'n ffurfiol gan aelodau staff priodol. Cynhelir aseidiadau risg penodol gyda'r holl ddisgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd penodol, gan ymgynghori'n llawn â'r rhiant/gofalwr a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol a chynnwys barn y dysgwr lle y bo'n bosibl.

### **5. Rhannu gwybodaeth**

Mae polisi ein Hawdurdod Lleol ar gael ar-lein ac fel copi caled ar gais. Mae cysylltiadau i'r polisi ar gael drwy gylchlythyr Ysgolion Abertawe ac mae ar gael ar wefan Cyngor Abertawe. Fe'i rhennir hefyd o fewn y grŵp rhwydwaith ADY drwy Hwb.

Wrth rannu gwybodaeth ag eraill rydym yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE 2018.

Gofynnir i rieni/gofalwyr lofnodi ffurflen gydsynio sy'n nodi'n glir y cyrff, yr unigolion a'r dulliau y bydd gwybodaeth feddygol y dysgwr yn cael ei rhannu drwyddynt. Bydd y dysgwr hefyd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am rannu gwybodaeth feddygol. Mae'r ysgol yn cadw cofnod o ba wybodaeth sy'n cael ei rhannu a chyda phwy.

### **6. Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheolaeth anghenion gofal iechyd dysgwyr.**

Dylai'r lleoliad addysg greu gweithdrefnau sy'n datgan rolau/cyfrifoldebau pob parti sy'n ymwneud â nodi, rheolaeth a gweinyddiaeth anghenion gofal iechyd. Dylai'r dogfennau canlynol gael eu casglu a'u cynnal, lle bo'n briodol.

1. Manylion cyswllt ar gyfer y gwasanaethau brys
2. Cytundeb rhieni i'r lleoliad addysgol weinyddu meddyginiaeth
3. Cytundeb pennaeth y lleoliad addysgol i weinyddu meddyginiaeth
4. Cofnod o feddyginiaeth gaiff ei storio a'i gweinyddu i ddysgwr unigol
5. Cofnod o feddyginiaethau a weinyddwyd i bob dysgwr yn ôl dyddiad
6. Cais i ddysgwr weinyddu eu meddyginiaeth eu hunain
7. Cofnod hyfforddiant staff – gweinyddu meddyginiaethau
8. Adroddiad ar ddiwyddiad yn ymwneud â meddyginiaeth

Dylid cwblhau cofnodion newydd pan fydd newidiadau i feddyginiaeth neu ddos. Dylai'r lleoliad dysgu sicrhau bod yr hen ffurflenni wedi'u nodi'n glir fel rhai nad ydynt



bellach yn berthnasol ac wedi'u storio yn unol â'u polisi cadw gwybodaeth. Gellir gweld y ffurflenni/templodi hyn yn 'Atodiad 5: Templodi ffurflenni' ar dudalen 50. Gellir dod o hyd i fersiynau electronig ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau anghenion gofal iechyd, polisiâu lleoliadau addysg ehangach a CGIU, yn cael eu cefnogi gan gyfathrebu clir â staff, rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llawn. Mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth yn cael ei diweddarau. Mae'n rhaid i'r dysgwyr a'r rhiant gytuno ar yr holl dechnegau rhannu gwybodaeth megis hysbysfyrddau staff a mewnrwydi ysgolion cyn eu defnyddio, er mwyn diogelu cyfrinachedd.

Dylai ysgolion sicrhau nad yw'r cyhoedd yn gallu cael gafael ar y data, ac os nad yw hyn yn bosibl, dylid egluro hyn i'r rhieni ar adeg cael caniatâd, gan nodi'r risgiau'n glir. Mae angen i rieni roi caniatâd i ysgolion arddangos ffotograffau a gwybodaeth am eu hanghenion meddygol ar fyrdau arddangos.

**Dylai athrawon, athrawon cyflenwi a staff cymorth (gall hyn gynnwys staff arlwyio a chontractwyr perthnasol)** gael gweld y wybodaeth berthnasol, yn enwedig os oes posibilrwydd y bydd sefyllfa'n codi mewn argyfwng. Bydd sut y gwneir hyn yn dibynnu ar fath a maint y lleoliad a gallai gynnwys:

- lle bo hynny'n addas, ac yn dilyn caniatâd priodol, hysbysfwrdd mewn ystafell staff a ddefnyddir i arddangos gwybodaeth am anghenion iechyd risg uchel, cymorth cyntaf a thystysgrifau, gweithdrefnau brys, ac yn y blaen. Dylid nodi nad yw'r holl staff yn defnyddio eu hystafell staff. Gallai maint rhai lleoliadau addysgol wneud y math hwn o rannu gwybodaeth yn anymarferol, a dylid bob amser ystyried hawl y dysgwyr i breifatrwydd.
- ardal fewnrwyd ddiogel y lleoliad addysg a chyfarfodydd staff yn cael eu defnyddio i helpu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd y dysgwyr sydd ganddyn nhw neu y gallai fod ganddyn nhw gysylltiad â nhw.

**Dylai rhieni a dysgwyr** fod yn bartneriaid gweithredol, ac er mwyn cyflawni hyn, dylai'r lleoliad addysg sicrhau bod rhieni'n gwbl ymwybodol o'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn. Dylai rhieni a dysgwyr hefyd fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau eu hunain. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai'r lleoliad addysg:

- sicrhau bod polisiâu anghenion gofal iechyd ar gael yn hawdd ac yn hygyrch, ar-lein ac ar ffurf copi caled
- rhoi copi o'u polisi rhannu gwybodaeth i'r dysgwyr/rhieni. Dylai hyn nodi'r math o gyrff ac unigolion y gellir rhannu gwybodaeth feddygol y dysgwyr â nhw
- gofyn i rieni lofnodi ffurflen gydsynio sy'n nodi'n glir y cyrff, yr unigolion a'r dulliau y bydd gwybodaeth feddygol eu dysgwyr yn cael ei rhannu drwyddynt. Gall rhannu gwybodaeth feddygol fod yn fater sensitif a dylai'r dysgwyr fod yn rhan o unrhyw benderfyniadau. Dylai lleoliadau addysg gadw rhestr o ba wybodaeth sydd wedi'i rhannu gyda phwy a pham, i'r dysgwyr/rhiant ei gweld ar gais

- ystyried cynnwys cyswllt ar y we i'r polisïau anghenion gofal iechyd mewn cyfathrebiadau perthnasol a anfonir at rieni, ac o fewn CGIU y dysgwr.
- cynnwys cynghorau myfyrwyr, 'ysgolion iach' a grwpiau dysgwyr eraill wrth ddatblygu trefniadau anghenion gofal iechyd y lleoliad, lle y bo'n briodol
- ystyried sut y gall grwpiau cyfeillgarwch a chyfoedion gynorthwyo dysgwyr, e.e. gellid dysgu'r sbardunau neu arwyddion problemau i ddysgwr iddynt, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng a phwy i ofyn am help. Dylai'r lleoliad addysg drafod gyda'r dysgwr a'r rhieni yn gyntaf a phenderfynu a ellir rhannu gwybodaeth.

Rhaid cofnodi pob achos o roi meddyginiaeth ar y ffurflenni priodol fel yr amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017. Os yw dysgwr yn gwrthod eu meddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau diffiniedig lle bydd rhieni yn cael gwybod am y diffyg cydymffurfio hwn cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r enghreifftiau gorau o gadw cofnodion yn cynnwys systemau lle cofnodwyd cofnodion anghenion gofal iechyd y dysgwr yn electronig er mwyn caniatáu mynediad cyflym a hawdd gan y staff priodol. Gall systemau data hefyd ganiatáu mynediad hawdd i'r wybodaeth ofynnol ar gyfer staff y gellir eu rhoi mewn ystafelloedd dosbarth lle nad ydynt yn gyfarwydd ag anghenion gofal iechyd y dysgwyr.

Rhaid i weithrediad systemau o'r fath gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018.

## **7. Storio, Mynediad a Gweinyddu Meddyginiaeth a Dyfeisiau**

### **a) Cyflenwi meddyginiaeth neu ddyfeisiau**

Ni ddylai lleoliadau storio meddyginiaeth dros ben. Dylid gofyn i'r rhieni ddarparu cyflenwadau priodol o feddyginiaeth. Dylai'r rhain fod yn eu cynhwysydd gwreiddiol, wedi'u labelu gydag enw'r dysgwr, enw'r feddyginiaeth, dos ac amllder a'r dyddiad dod i ben. Dim ond meddyginiaethau a dyfeisiau ar bresgripsiwn y dylai lleoliadau eu derbyn:

- i. sydd yn gyfredol
- ii. gyda'r cynnwys wedi'i labelu'n gywir ac yn glir
- iii. wedi'u labelu ag enw'r dysgwr
- iv. gyda chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu, dos a storio yn eu cynhwysydd/pecynnu gwreiddiol fel y'u gweinyddwyd gan y fferylllydd (ac eithrio inswlin sydd ar gael fel arfer drwy ben neu bwmp inswlin).

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn argymhell cyflenwi meddyginiaethau di-bresgripsiwn fel paracetamol hylifol, ac ni ddylai lleoliadau weinyddu aspirin na'i ddeilliadau oni bai ei fod wedi'i ragnodi. Gall rhieni ofyn i feddyginiaeth ddi-bresgripsiwn heblaw aspirin gael ei storio gan yr ysgol ond dim ond os yw'r feddyginiaeth:

- i. yn gyfredol
- ii. wedi'i gynnwys yn gywir ac wedi'i labelu'n glir
- iii. wedi'i labelu ag enw'r dysgwr
- iv. gyda chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu, dos a storio - gall hyn fod gan y rhiant
- v. yn ei gynhwysydd/pecynnu gwreiddiol.

## **b) Storio, mynediad a gwaredu**

Dylid storio pob meddyginiaeth yn ddiogel yn dibynnu ar y math o feddyginiaeth a'r defnydd ohoni, a allai gynnwys oergell. Mae'n bwysig i staff a dysgwyr wybod ble mae eu meddyginiaeth yn cael ei storio a sut i gael gafael arni.

### **i. Meddyginiaeth frys**

Dylai lleoliadau sicrhau bod meddyginiaeth frys fel anadlwyr a phinnau chwistrellu awtomatig ar gael yn hawdd ac nid o dan glo. Os yw dysgwr yn gymwys i wneud hynny, efallai y bydd ei feddyginiaeth gyda nhw ond ni ddylai ei drosglwyddo i berson anawdurdodedig. Gall y rhiant/gofalwr gyflwyno cais i'r dysgwr gario/weinyddu ei feddyginiaeth ei hun a bydd yn ei drafod gyda'r staff perthnasol. Os oes gan staff bryderon, yna dylai'r rhiant/gofalwr drafod y rhain gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae unrhyw gais yn amodol ar adolygiad os tynnir sylw at bryderon/risgiau pellach. Mae darparu meddyginiaeth frys a'i diogelwch hefyd yn rhan o'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle gan gynnwys tripiâu a gweithgareddau preswyl.

Anogir ysgolion i gynnal anadlydd salbutamol brys ar gyfer sefyllfaoedd lle nad yw dysgwr yn gallu dod o hyd i'w anadlydd ei hun. Ceir canllawiau ar ddefnyddio anadlwyr salbutamol brys yn: [Canllawiau ar ddefnyddio anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion](#). Mae anadlwyr brys yn cael eu prynu o'n fferyllfa gymunedol leol.

### **ii. Meddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth frys**

Dylid cadw pob meddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth frys mewn man diogel gyda rheolaeth tymheredd neu olau priodol. Os yw'n gyffur a reolir, gweithredir mesurau a rheolaethau diogelwch ychwanegol yn ôl arweiniad staff iechyd arbenigol.

### iii. **Gwaredu meddyginiaeth**

Pan nad oes eu hangen mwyach, dylid dychwelyd meddyginiaeth i'r rhieni i drefnu eu gwaredu'n ddiogel. Dylid defnyddio blychau offer miniog i waredu nodwyddau ac offerynnau miniog eraill, a dylid gwneud trefniadau gwaredu priodol.

### c) **Gweinyddu meddyginiaethau**

- i. Os yw'r dysgwr o dan 16 oed, mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan y rhiant i helpu neu weinyddu meddyginiaethau a ragnodwyd neu nas ragnodwyd. Dylid cofnodi'r modd y gweinyddir yr holl feddyginiaethau.
- ii. Pan ragnodir meddyginiaeth i'w chymryd mewn amllder sy'n caniatáu i'r cwrs dyddiol o feddygaeth gael ei weinyddu gartref, dylai rhieni geisio gwneud hynny, megis cyn ac ar ôl ysgol a gyda'r nos. Fodd bynnag, bydd achosion lle nad yw hyn yn briodol.
- iii. Ni roddir aspirin byth i ddysgwyr o dan 16 oed na'i ddeilliadau oni bai eu bod yn cael eu rhagnodi iddynt.
- iv. Oni bai bod cynllun y cytunwyd arno i'r dysgwr roi meddyginiaeth i'w hunain (16 oed a hŷn), dylai'r holl feddyginiaethau gael eu gweinyddu gan aelod o staff yn unol â'r CGIU.
- v. Dim ond staff sydd wedi cael hyfforddiant addas ddylai roi meddyginiaeth. Dylai symudiad a lleoliad y staff hyfforddedig hyn fod ar y cyd â'r dysgwyr y maent yn eu cynorthwyo bob amser.
- vi. Dylai staff wirio'r dos uchaf a swm ac amser unrhyw ddos blaenorol a weinyddir.
- vii. Efallai y bydd angen i oedolyn o'r un rhyw â'r dysgwr i weinyddu gweithdrefnau meddygol penodol, ac efallai y bydd ail oedolyn yn dyst i hynny. Dylid ystyried meddyliau a theimladau'r dysgwr o ran nifer a rhyw y rhai sy'n cynorthwyo wrth ddarparu gofal personol. Nid yw'n ofynnol o dan y gyfraith fod mwy nag un person yn cynorthwyo<sup>2</sup>. Dylid cytuno ar hyn a'i adlewyrchu yn y CGIU a'r asesiad risg.
- viii. Dylai fod gan yr ysgol bolisi gofal personol y dylid ei ddilyn, oni bai bod trefniadau eraill wedi'u cytuno, a'u cofnodi yn CGIU y dysgwr.
- ix. Os bydd dysgwr yn gwrthod ei feddyginiaeth, dylai'r staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau diffiniedig, gan roi gwybod i'r rhieni cyn gynted â phosibl. Os yw dysgwr yn camddefnyddio unrhyw feddyginiaeth, dylid hysbysu ei rieni cyn gynted â phosibl. Dylai'r lleoliad addysg ofyn i rieni geisio cyngor gofal iechyd fel y bo'n briodol. Os na ellir cysylltu â'r rhieni ar unwaith, mae angen i'r staff ystyried ceisio cyngor gofal iechyd ar unwaith.
- x. Dylai pob aelod o staff sy'n cefnogi ymweliadau oddi ar y safle fod yn ymwybodol o ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylent gael y wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y staff yn gallu hwyluso profiad y dysgwr, fel y bo'n ymarferol ac yn rhesymol. Gall y wybodaeth hon gynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth angenrheidiol arall sydd ei angen ar y dysgwr, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer.

<sup>2</sup> [gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe.pdf](http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe.pdf)

## 8. Gweithdrefnau Argyfwng

Mae'r awdurdod yn argymhell y dylai pob lleoliad addysg fod â gweithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd brys. Dylai staff wybod:

- i. pwy sy'n gyfrifol am y polisi a'r gweithdrefnau,
- ii. gweithwyr cymorth cyntaf enwebedig a sut i ddelio ag anghenion gofal iechyd cyffredin. Mewn sefyllfaoedd lle mae angen cymorth brys, dylid galw 999 ar unwaith.
- iii. lleoliad cofnodion gofal iechyd dysgwyr a manylion cyswllt mewn argyfwng.

Os oes gan ddysgwr CGIU, dylai ddiffinio'n glir beth yw argyfwng ac esbonio beth i'w wneud. Dylai staff fod yn ymwybodol o symptomau a gweithdrefnau argyfwng.

Dylai dysgwyr eraill yn y lleoliad addysg hefyd wybod beth i'w wneud mewn termau cyffredinol mewn argyfwng, fel rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith.

Os oes angen mynd â dysgwr i'r ysbyty, dylai aelod o staff aros gyda'r dysgwr hyd nes y bydd rhiant yn cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys eu hebrwng mewn ambiwlans i'r ysbyty. Dylai'r aelod o staff gael manylion unrhyw anghenion gofal iechyd a meddyginiaeth sy'n hysbys.

## 9. Hyfforddiant

Mae'r corff llywodraethu a phenaethiaid yn gyfrifol am sicrhau bod nifer ddigonol o staff wedi'u nodi i ddiwallu anghenion gofal iechyd pob plentyn a pherson ifanc mewn lleoliadau addysg ledled Abertawe. Dylid darparu hyfforddiant priodol i staff sy'n gwirfoddoli neu sydd dan gontract i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion gofal iechyd mewn lleoliadau addysg.

Wrth gynorthwyo dysgwyr â'u hanghenion gofal iechyd, cydnabyddir nad oes angen unrhyw hyfforddiant arbenigol ar gyfer llawer o ymyriadau a rôl staff yw hwyluso'r dysgwr i ddiwallu ei anghenion gofal iechyd ei hun.

Fodd bynnag, lle mae CGIU yn adlewyrchu anghenion cymhleth sy'n gofyn i staff gael gwybodaeth a hyfforddiant penodol, mae'r ALI yn gweithio gydag asiantaethau iechyd neu eraill i sicrhau hyfforddiant priodol. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhestr o'r staff iechyd y gellir cysylltu â hwy i ddarparu hyfforddiant mewn meysydd allweddol megis diabetes, asthma, alergeddau ac epilepsi. Bydd yr ALI yn monitro sut y caiff hyfforddiant ei gofnodi a'i ddiweddarau yn y lleoliadau addysg y mae'n eu cynnal a bydd yn casglu'r wybodaeth hon ar sail arolwg.

Cydnabyddir y gall yr holl staff, p'un ai ydynt wedi gwirfoddoli i gynorthwyo neu gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, ddod i gysylltiad â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Felly, mae gennym raglen hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau cyffredin i sicrhau cydnabod symptomau a deall ble a phryd i geisio cymorth priodol.

Mae'r ALI hefyd yn darparu hyfforddiant ar ddatblygu CGIU.

Dylai gweithdrefnau sefydlu ysgolion sicrhau bod staff newydd a dros dro yn ymwybodol o'r mesurau ataliol a brys sydd ar waith fel y gallant adnabod yr angen am ymyrraeth ac ymateb yn gyflym.

Os nad yw'r staff hyfforddedig sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth ar gael, bydd y CGIU yn nodi trefniadau amgen.

## **10. Addysg heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)**

Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol (adrannau 19(1) ac 19(4) o Ddeddf Addysg 1996 i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas i bob plentyn a pherson ifanc o oedran ysgol gorfodol.

Yn achos absenoldeb byr (sy'n debygol o bara am lai na 15 diwrnod ysgol) dylai'r ysgol ddarparu gwaith i'w gwblhau gartref, os yw cyflwr y dysgwr yn caniatáu hynny, a chynorthwyo'r dysgwr i ddal i fyny ar ôl dychwelyd. Os yw'r absenoldeb yn debygol o fod yn hwy na 15 diwrnod ysgol dylai'r ysgol gysylltu â Thîm Addysgu cartref yr ALI fel y gallant drefnu addysg briodol heblaw yn yr ysgol.

Lle rhagwelir absenoldebau neu eu bod yn hysbys ymlaen llaw, dylai cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r ALI alluogi darparu'r gwasanaeth EOTAS o ddechrau'r absenoldeb.

Mae cyswllt agos rhwng athrawon cartref/ysbyty ac athrawon prif ffrwd yn sail i ddarparu rhaglen addysgol effeithiol ar gyfer y dysgwyr. Fodd bynnag, gall rhieni/gofalwyr hefyd weithredu fel cyswllt gwerthfawr.

Gall dysgwyr ag anghenion gofal iechyd cymhleth gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chynllun gofal ysgrifenedig. Pan fydd hyn yn digwydd, dylid integreiddio'r cynllun gofal ysgrifenedig i unrhyw CGIU.

## **11. Cludiant Ysgol**

Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod o dan y ddogfen *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol* (2014).

Bydd rhai plant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd yn derbyn cludiant i'w hysgol neu i'w lleoliad. Darperir cludiant gan yr awdurdod lleol yn seiliedig ar feini prawf penodol, e.e. pellter a/neu anghenion addysgol arbennig.

Ni fydd yr Awdurdod Lleol fel arfer yn rhoi meddyginiaeth i blant neu bobl ifanc sy'n defnyddio cludiant i'r ysgol neu leoliad ac oddi yno. Yn y rhan fwyaf o achosion, pe bai argyfwng meddygol yn digwydd ar drafnidiaeth, byddai'r gyrrwr yn stopio'r cerbyd ac yn ffonio 999. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau pan fo risg sylweddol wedi'i nodi i iechyd plentyn neu berson ifanc, cyflogir Cynorthwyrwr Teithwyr (PAs) a'u hyfforddi i reoli sefyllfaoedd brys a, lle bo angen, dylent roi meddyginiaeth frys.

Mae'n bwysig, felly, yr hysbysir cludiant i'r ysgol ac yn ei dro, PAs yn llawn am gyflwr meddygol plentyn neu berson ifanc a sut i'w reoli, hyd yn oed pan na fydd disgwyl i'r PA roi meddyginiaeth frys. Yn benodol, pan fo meddyginiaeth frys wedi'i rhoi o fewn y 12 awr flaenorol, dylai ysgolion a lleoliadau hysbysu'r Cynorthwydd Teithio am hyn.

O'r herwydd, anogir ysgolion a lleoliadau i rannu'r cynllun gofal iechyd unigol (CGIU) gyda chludiant yr ysgol, gyda chydysyniad y rhiant, a all, yn ei dro, rannu hyn gyda'r cynorthwydd teithwyr.

Pan fydd ysgolion neu lleoliadau'n trafod anghenion hyfforddiant staff, dylent roi ystyriaeth i'r hyfforddiant a all fod ei angen ar PA. Ni ddylai ysgolion a lleoliadau ddefnyddio pryderon ynghylch diogelu data fel rheswm dros beidio â rhannu gwybodaeth berthnasol â chludiant i'r ysgol.

Yn y pen draw, cyfrifoldeb y rhiant neu'r gofalwr yw sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth sy'n ofynnol yn ystod y diwrnod ysgol yn cael ei rhoi i'r ysgol. Fodd bynnag, lle darperir cludiant, yn enwedig i ysgolion arbennig sy'n aml yn bell o'r cartref, gall rhieni ofyn i gynorthwyr teithwyr ddarparu'r feddyginiaeth. Bydd cludiant ysgol yn ceisio cefnogi rhieni yn hyn o beth ond bydd angen cynnal asesiad risg ar gyfer pob achos.

Lle y cytunir y caiff meddyginiaeth ei chludo gan y Cynorthwydd Teithwyr, bydd angen ychwanegu hyn at amserlen y daith a gofynnir i'r rhiant lofnodi ffurflen gydsynio. Bydd cynorthwyr teithwyr yn cludo meddyginiaeth mewn cynhwysydd clir, cludadwy ac, yn ddelfrydol, dan glo, a gaiff ei ddanfôn yn uniongyrchol i swyddfa'r ysgol neu'r lleoliad.

Bydd disgwyl i Gynorthwyr Teithwyr gadw cofnodion cywir o unrhyw feddyginiaethau a weinyddir neu a hunan-weinyddir ar gludiant, a rhannu'r wybodaeth hon gyda'r ysgol neu'r lleoliad, neu'r rhiant. Fel arfer, pan weinyddir meddyginiaethau brys, bydd hyn ar y cyd â phrotocol argyfwng a fydd yn golygu stopio'r cerbyd a galw'r gwasanaethau brys.

Dylai plant a phobl ifanc sy'n gallu cario eu meddyginiaeth eu hunain yn ddiogel ar gludiant gael eu hannog i wneud hynny, er mwyn cynyddu eu hannibyniaeth. Mae hyn yn berthnasol i bob meddyginiaeth, gan gynnwys anadlwyr asthma, epi-peniau ac inswlin.

Anogir pob ysgol a lleoliad i ystyried y goblygiadau trafndiaeth yn eu *Polisi Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd*.

## 12. Adolygu Polisiâu, Trefniadau a Gweithdrefnau

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod yr holl bolisiâu, trefniadau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y lleoliad addysg.

Bydd angen adolygu pob CGIU yn aml, yn dibynnu ar yr angen gofal iechyd - dylai hyn gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, y dysgwr, rhieni, gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol a chyrff perthnasol eraill. Dylai pob CGIU gael ei gadw gan ysgolion a'i anfon at gynrychiolydd yr awdurdod lleol i gael ei gofnodi.

## 13. Trefniadau Yswiriant

Dylai cyrff llywodraethu lleoliadau addysg a gynhelir sicrhau bod lefel priodol o yswiriant ar waith i gwmpasu gweithgareddau'r lleoliad wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai lefel yr yswiriant adlewyrchu lefel y risg yn briodol. Efallai y bydd angen trefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau, e.e. gweithgareddau oddi ar y safle ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu sicrwydd yswiriant priodol ar gyfer pob lleoliad ysgol a gynhelir o ran plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd a gweinyddu meddyginiaeth cyhyd â bod yr ysgol yn dilyn canllawiau priodol a gofynion hyfforddiant fel y nodir uchod ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 14. Gweithdrefn Gwyno

Os nad yw'r dysgwr neu'r rhiant yn fodlon â threfniadau gofal iechyd y lleoliad addysg, mae ganddynt hawl i wneud cwyn. Rhaid i'r corff llywodraethu roi cyhoeddusrwydd i'w weithdrefn gwyno ffurfiol<sup>3</sup>, gan gynnwys sut y gellir uwchgyfeirio cwynion o athro i bennaeth, yna i'r corff llywodraethu, ac yna i'r awdurdod lleol. Dylid crynhoi'r weithdrefn gwyno hefyd yn eu polisi ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010/yn gysylltiedig ag anabledd, yna gellir ystyried herio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

## 15. Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)

Dylai CGIU fod ar gael yn hawdd i bawb y mae angen iddynt gyfeirio ato, tra'n cynnal y lefelau gofynnol o breifatrwydd. Dylai pob cynllun gofnodi gwybodaeth allweddol a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol. Gall datblygu CGIU gynnwys:

- i. y dysgwr
- ii. y rhieni
- iii. mewnbwn neu wybodaeth o leoliad ysgol blaenorol

---

<sup>3</sup> Adran 29 o Ddeddf Addysg yn [www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/section/29](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/section/29)



- iv. gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol
- v. gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol
- vi. y pennaeth a/neu'r unigolyn cyfrifol dirprwyedig am anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad
- vii. athrawon a staff cymorth, gan gynnwys staff arlwyo
- viii. unrhyw unigolion sydd â rolau perthnasol megis cydlynnydd cymorth cyntaf, swyddog llesiant, a chydlynnydd anghenion addysgol arbennig (SENCo).

Er y dylai'r cynllun gael ei deilwra i bob dysgwr unigol, gall gynnwys:

- i. manylion yr angen am ofal iechyd a disgrifiad o symptomau
- ii. gofynion penodol megis gofynion dietegol, rhagofalon cyn-weithgaredd (e.e. cyn dosbarthiadau addysg gorfforol)
- iii. gofynion meddyginiaeth, e.e. dos, sgil effeithiau, gofynion storio, trefniadau ar gyfer gweinyddu
- iv. datganiad effaith (wedi'i gynhyrchu ar y cyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac athro) ar sut mae cyflwr gofal iechyd y dysgwr a/neu driniaeth yn effeithio ar ei ddysgu a pha gamau sydd eu hangen i liniaru'r effeithiau hyn
- v. camau sy'n ofynnol
- vi. protocolau a manylion cyswllt mewn argyfwng
- vii. y rôl y gall y lleoliad addysg ei chwarae, e.e. rhestr o bethau i fod yn ymwybodol ohonynt
- viii. dyddiadau adolygu a sbardunau adolygu
- ix. rolau staff penodol, e.e. pwynt cyswllt i rieni, staff sy'n gyfrifol am weinyddu/goruchwylio meddyginiaeth, a threfniadau ar gyfer cyflenwi yn eu habsenoldeb
- x. dylid cytuno ar ganiatâd/preifatrwydd/rhannu gwybodaeth sensitif
- xi. anghenion hyfforddiant staff, megis o ran gweinyddiaeth gofal iechyd, cymhorthion a thechnolegau addasol
- xii. cadw cofnodion – sut y'i gwneir, a pha wybodaeth sy'n cael ei chyfleu i eraill
- xiii. cludiant o'r cartref i'r ysgol – cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hyn, a allai ei chael yn ddefnyddiol bod yn ymwybodol o CGIU y dysgwr a'r hyn y mae'n ei gynnwys, yn enwedig mewn perthynas â sefyllfaoedd brys.

\*gweler templed yr Awdurdod Lleol yn yr Atodiad fel enghraifft.

Nod y cynllun yw nodi'r camau y mae angen eu cymryd i helpu dysgwr i reoli ei gyflwr a goresgyn unrhyw rwystrau posibl i gymryd rhan lawn mewn addysg. Dylai'r rhai sy'n dyfeisio'r cynllun gytuno ar bwy fydd yn cymryd yr awenau, ond yr ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau a'i weithredu. Mae llawer o sefydliadau'r trydydd sector wedi cynhyrchu templed CGIU sy'n benodol i gyflwr y gellid ei ddefnyddio.

Adolygir cynlluniau o leiaf bob blwyddyn neu'n amlach os bydd tystiolaeth newydd fod anghenion y dysgwr wedi newid. Dylid eu datblygu gyda buddiannau gorau'r dysgwr mewn golwg a sicrhau bod yr ysgol, gyda gwasanaethau arbenigol (os oes angen), yn asesu'r risgiau i addysg, iechyd a llesiant cymdeithasol y dysgwr.

Os oes gan ddysgwr AAA, dylid cysylltu neu atodi'r CGIU wrth unrhyw gynllun addysg unigol, datganiad AAA, neu gynllun dysgu a sgiliau.

Anfonir copi o bob IHP at yr uwch athro arbenigol, d/o Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol.

### **Cydgysylltu gwybodaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y dysgwr a rhieni**

Mae'r ffordd y rhennir anghenion gofal iechyd dysgwr â gweithwyr proffesiynol cymdeithasol a gofal iechyd yn dibynnu ar eu gofynion a'r math o ysgol. Dylai'r CGIU egluro sut y rhennir gwybodaeth a phwy fydd yn gwneud hyn. Gall yr unigolyn hwn fod yn bwynt cyswllt cyntaf i rieni a staff a byddai'n cysylltu ag asiantaethau allanol.

### **Cyfrinachedd**

Mae'n bwysig bod staff perthnasol (gan gynnwys staff dros dro) yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd eu dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i CGIU. Mae'n debygol y bydd CGIU yn cynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Rhaid i'r broses o rannu a storio gwybodaeth gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pheidio â thorri hawliau preifatrwydd neu ddyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolion.

### **Rôl y dysgwr wrth reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain**

Dylai dysgwyr sy'n gymwys i wneud hynny gael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu meddyginiaethau a'u gweithdrefnau eu hunain. Dylai hyn gael ei adlewyrchu o fewn CGIU dysgwr.

Lle y bo'n bosibl, dylid caniatáu i ddysgwyr gario eu meddyginiaeth a'u dyfeisiau perthnasol eu hunain, neu allu cael gafael ar eu meddyginiaeth yn gyflym. Efallai y bydd angen lefel priodol o oruchwyliaeth ar rai dysgwyr.

Os yw dysgwr yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth neu gyflawni gweithdrefn angenrheidiol, ni ddylai staff eu gorfodi i wneud hynny, ond dilyn trefniadau diffiniedig y lleoliad, y cytunir arnynt yn y CGIU. Dylid hysbysu rhieni cyn gynted ag y bo modd fel y gellir ystyried trefniant arall a dylid ceisio cyngor iechyd lle y bo'n briodol.

## 16. Arfer annerbyniol

Nid yw'n arfer derbyniol:

- i. Atal dysgwyr rhag mynychu'r ysgol oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, oni bai y byddai eu presenoldeb yn debygol o achosi niwed i'r dysgwr neu i eraill.
- ii. Atal dysgwyr rhag cael gafael ar eu hanadlwyr neu feddyginiaeth arall yn hawdd, a'u hatal rhag cymryd eu meddyginiaeth pan a lle bo angen.
- iii. Cymryd yn ganiataol bod angen yr un driniaeth ar bob dysgwr sydd â'r un cyflwr.
- iv. Anwybyddu barn y dysgwr neu ei rieni/gofalwyr, neu anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd (er y gellid holi'r farn hon gyda barn ychwanegol yn cael ei cheisio'n brydlon).
- v. Anfon dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gartref yn aml neu eu hatal rhag aros ar gyfer gweithgareddau arferol, gan gynnwys cinio, oni bai bod hyn yn cael ei nodi'n addas yn eu CGIU.
- vi. Anfon dysgwr sy'n mynd yn sâl neu sydd angen cymorth i ystafell feddygol neu brif swyddfa ar ei ben ei hun neu gyda rhywun nad yw'n gallu ei fonitro'n iawn.
- vii. Cosbi dysgwr am ei gofnod presenoldeb os yw'r absenoldeb yn gysylltiedig â'i anghenion gofal iechyd. Ni ddylid defnyddio 'absenoldebau awdurdodedig' gan gynnwys apwyntiadau gofal iechyd, amser teithio i'r ysbyty neu apwyntiad, ac amser adfer o driniaeth neu salwch i gosbi dysgwr mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymryd rhan mewn gweithgareddau, tripiâu neu ddyfarniadau sy'n cael eu cymell ynglŷn â chofnodion presenoldeb.
- viii. Gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol yn ystod arholiadau ar gyfer dysgwr yn hwyr. Dylid gwneud cais amdanynt mewn da bryd. Dylid hefyd ystyried addasiadau neu amser ychwanegol sydd ei angen mewn ffug arholiadau neu brofion eraill.
- ix. Atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu gymryd seibiant toiled neu seibiannau eraill pan fo'u hangen er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd yn effeithiol.
- x. Ei gwneud yn ofynnol i rieni/gofalwyr, neu fel arall wneud iddynt deimlo bod rheidrwydd arnynt, i fynychu'r ysgol, taith neu weithgaredd arall oddi ar y safle i roi meddyginiaeth neu ddarparu cymorth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys materion yn ymwneud â mynd i'r toiled.
- xi. Disgwyl neu beri i riant roi'r gorau i'w gwaith neu ymrwymadau eraill oherwydd bod yr ysgol yn methu â chefnogi anghenion gofal iechyd dysgwr.
- xii. Gofyn i ddysgwr adael yr ystafell ddosbarth neu'r gweithgaredd os oes angen iddyn nhw weinyddu meddyginiaeth nad yw'n bersonol neu fwyta bwyd yn unol â'u hanghenion iechyd.
- xiii. Atal neu greu rhwystrau diangen i gyfranogiad dysgwr mewn unrhyw agwedd ar ei addysg, gan gynnwys tripiâu, e.e. drwy ei gwneud yn ofynnol i riant fynd gyda'r dysgwr.

Gwneir ysgolion yn ymwybodol o'r uchod, drwy Bolisi'r Awdurdod Lleol, fel y nodir yn nogfen gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru (*Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd, 215/2017*) sydd, yn ei dro, yn llywio Polisi'r Ysgol i atal arferion annerbyniol rhag digwydd.

Bydd staff yn cael gwybod am ymarfer annerbyniol drwy sesiynau briffio, cyfarfodydd rhwydwaith ALNCO a byddant ar gael ar-lein drwy grŵp rhwydwaith ADY Hwb.

Gweler yr adran 'Arfer Annerbyniol' yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, 'Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd':

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?lang=en>

Ar gyfer ymholiadau ynghylch sut y gall ysgolion fodloni anghenion dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, cysylltwch â:

Lyndsay Jenkins

Athro Arbenigol ar gyfer Disgyblion ag Anawsterau Corfforol a Chymhleth

Tŷ Cocyd

Heol y Cocyd

SA2 0FJ

07887 055217

[Lyndsay.Jenkins@swansea.gov.uk](mailto:Lyndsay.Jenkins@swansea.gov.uk)

## Atodiad 1

### Polisi Enghreifftiol Ysgol

**Polisi:** Polisi Anghenion Gofal Iechyd ar gyfer (*rhowch enw'r ysgol*)

**Dyddiad cyhoeddi:**

**Dyddiad adolygu:**

**Cyfeiriad llawn yr ysgol a chod post:**

**Rhif ffôn yr ysgol (gan gynnwys y cod ardal):**

**Cyfeiriad e-bost yr ysgol:**

**Cyfeiriad y wefan ar gyfer y polisi hwn:**

**Enw'r person sy'n gyfrifol am gynnal y polisi hwn:**

#### 1. Egwyddorion allweddol

Mae staff a chorff llywodraethu (*rhowch enw'r ysgol*) wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd fel bod ganddynt fynediad llawn i addysg, gan gynnwys holl weithgareddau ac addysg gorfforol oddi ar y safle.

Rydym yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr, dysgwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod anghenion y dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael eu deall yn iawn a'u cefnogi'n effeithiol. Rydym yn gwneud hyn drwy wrando ar farn a dymuniadau'r dysgwr a'r rhiant yn ogystal â chyngor gweithwyr proffesiynol ym maes addysg ac iechyd.

Lle bo'n bosibl rydym yn cefnogi'r dysgwr i feithrin dealltwriaeth a hyder fel y gall hunanreoli ei anghenion gofal yn gynyddol gan ddibynnu ar ei allu i wneud hynny.

Rydym yn sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar hyfforddiant priodol fel bod anghenion gofal iechyd dysgwyr yn cael eu cefnogi'n briodol.

Deallwn fod gan bob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd hawl i addysg llawn a'u bod yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) *fel ysgol sy'n parhau hawliau* (dileer os nad yw'n gymwys). Wrth wneud trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwr, rydym yn ystyried yr effaith ar eu haddysg, eu cyrhaeddiad a'u llesiant. Mae unrhyw drefniadau hefyd yn ystyried dyletswyddau diogelu ehangach tra'n ceisio sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad ac yn mwynhau'r un cyfleoedd.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 rydym yn gwneud addasiadau rhesymol i gydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf er mwyn peidio â gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr anabl.

## 2. Gofynion cyfreithiol ysgol

Rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol hyrwyddo llesiant pob dysgwr yn yr ysgol o dan Adran 21(5) o Ddeddf Addysg 2002. Rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau i hyrwyddo a diogelu llesiant pob plentyn yn yr ysgol ym mhob agwedd ar ymddygiad yr ysgol (Adran 175(2) Deddf Addysg 2002. Wrth gyflawni'r dyletswyddau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 mae'n **rhaid** i gyrrff llywodraethu roi sylw i ganllawiau gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

Mae'r corff llywodraethu hefyd yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Gall rhai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd fod yn anabl at ddibenion y Ddeddf. Rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol wneud addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau y gall dysgwyr anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol. Rhaid iddynt hefyd baratoi a gweithredu cynllun hygyrchedd sy'n nodi'r hyn y mae'r ysgol yn bwriadu ei wneud i gynyddu'r mynediad sydd gan ddysgwyr anabl i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol.

Mae angen i'r corff llywodraethu a'r pennaeth fod yn ymwybodol hefyd o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ceisio sicrhau bod y gofal a'r cymorth a ddarperir i blant a phobl ifanc yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn CCUHP. Mae llesiant a'r canlyniadau y mae pobl am eu cyflawni wrth wraidd y ddeddfwriaeth sy'n defnyddio "model pobl" sy'n canolbwyntio ar drefniadau sy'n unigryw i anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Dylai'r trefniadau hefyd fod yn integredig ac yn gydlynus.

## 3. Rolau a chyfrifoldebau

### Ysgol

#### a. Corff llywodraethu

Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r trefniadau canlynol:

- i. Cydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- ii. Hyrwyddo llesiant dysgwyr gan gynnwys rhoi mynediad i ddysgwyr at wybodaeth a deunydd sydd â'r nod o hyrwyddo llesiant ysbrydol a moesol ac iechyd corfforol a meddyliol (erthygl 17 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).
- iii. Cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r gwydnwch emosiynol sydd eu hangen i gynnal eu hawliau, a hawliau pobl eraill.
- iv. Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r trefniadau i gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yn glir ac yn ddealladwy i bawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys unrhyw ddirprwyo priodol o gyfrifoldebau neu dasgau i bennaeth, aelod o staff neu weithiwr proffesiynol fel y bo'n briodol.
- v. Gweithio ar y cyd â rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatblygu trefniadau gofal iechyd er mwyn bodloni llesiant gorau'r dysgwr.

- vi. Datblygu, gweithredu a chyfathrebu trefniadau effeithiol i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai hyn gynnwys polisi ar anghenion gofal iechyd a lle bo'n briodol, cynlluniau gofal iechyd unigol (CGIU) ar gyfer dysgwyr penodol.
- vii. Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu'r trefniadau ar gyfer anghenion gofal iechyd.
- viii. Sicrhau bod y trefniadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, megis iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, asesiadau risg, Deddf Diogelu Data 1998, mesurau diogelu a gweithdrefnau brys
- ix. Sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd a digwyddiadau critigol, ar gyfer gweithgareddau ar, ac oddi ar y safle, gan gynnwys mynediad i feddyginiaethau brys fel anadlwyr neu bennau adrenalín.
- x. Sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu hyfforddi'n briodol.
- xi. Sicrhau bod yswiriant priodol ar waith, bod unrhyw amodau'n cael eu bodloni a bod staff yn glir ynghylch beth mae hyn yn ei olygu wrth gefnogi dysgwyr.
- xii. Bod ganddynt bolisi atal heintiau sy'n adlewyrchu'n llawn y gweithdrefnau a nodir yn y canllawiau presennol.<sup>4</sup> Gellir cael rhagor o arweiniad ar y wefan: [Canllawiau ar Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan ar gyfer Lleoliadau Addysg](#)

## b. Pennaeth

Dylai'r pennaeth sicrhau bod y trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd eu dysgwyr wedi'u datblygu'n ddigonol ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys:

- i. gweithio gyda'r corff llywodraethu i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol perthnasol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- ii. Sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwr yn cael eu deall yn llawn gan yr holl bartion dan sylw ac y gweithredir arnynt ac y cynhelir camau gweithredu o'r fath.
- iii. Sicrhau bod y cymorth a roddir ar waith yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr unigol ac yn eu diwallu, a elwir hefyd yn gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn<sup>5</sup>.
- iv. Ymestyn ymwybyddiaeth o anghenion gofal iechyd ar draws yr ysgol yn unol â hawl y dysgwr i breifatrwydd. Gall hyn gynnwys staff cefnogi, arlwyo a chyflenwi, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a dysgwyr eraill.
- v. Penodi aelod o staff penodol sy'n gyfrifol am ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, cysylltu â rhieni/gofalwyr, dysgwyr, y gwasanaeth

<sup>4</sup> [www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/home](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/home)

<sup>5</sup> [learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-en.pdf](http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-en.pdf)

- addysgu gartref, yr awdurdod lleol, y gweithiwr allweddol ac eraill sy'n ymwneud â gofal y dysgwr.
- vi. Sicrhau bod nifer digonol o staff hyfforddedig ar gael i weithredu'r trefniadau a nodir ym mhob CIU, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd brys ac absenoldeb staff.
  - vii. Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu CGIU.
  - viii. Sicrhau bod gan ddysgwyr amgylchedd priodol, gydag urddas, i gyflawni eu hanghenion gofal iechyd, e.e. toiledau preifat ar gyfer cathetreiddio.
  - ix. Gwirio gyda'r awdurdod lleol a yw gweithgareddau penodol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cwmpasu'n briodol gan yswiriant a gwneud staff yn ymwybodol o unrhyw derfynau i'r gweithgareddau a gwmpesir.
  - x. Sicrhau bod pob dysgwr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cysylltu'n briodol â gwasanaeth cyngor iechyd yr ysgol.
  - xi. Sicrhau pan fydd dysgwr yn cymryd rhan mewn lleoliad profiad gwaith neu debyg, bod cymorth gofal iechyd priodol wedi'i gytuno a'i roi ar waith.
  - xii. Darparu adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr.
  - xiii. Sicrhau nad yw pob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael eu heithrio o weithgareddau y byddai ganddynt hawl i gymryd rhan ynddynt fel arfer heb reswm clir yn seiliedig ar dystiolaeth.
  - xiv. Hysbysu'r Awdurdod Lleol (ALI) pan fydd dysgwr yn debygol o fod i ffwrdd o'r ysgol am gyfnod sylweddol, e.e. tair wythnos (p'un ai mewn un cyfnod neu yn ystod y flwyddyn academaidd) oherwydd ei anghenion gofal iechyd. Yn y pen draw, mae'r hyn sy'n gymwys i gyfnod o absenoldeb 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac a all y lleoliad ddarparu addysg addas ar gyfer y dysgwr. Gall cyfnodau byrrach o absenoldeb fod yn sylweddol yn dibynnu ar yr amgylchiadau.
  - xv. Hysbysu'r ALI am newidiadau mewn anghenion gofal iechyd dysgwyr neu ddiweddariadau yn y cynllun gofal iechyd unigol. Dylid anfon newidiadau mewn CGIU at yr Uwch Athro Arbenigol, Tŷ'r Cocyd, Heol y Cocyd. Dylid trafod newidiadau yn y ddarpariaeth ar ddatganiad anghenion addysgol arbennig i ddysgwyr fel rhan o adolygiad o ddatganiad y dysgwr a'i anfon ymlaen i dîm Cronfa ddata, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.
  - xvi. Bod yn ystyriol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai ysgolion fod yn gwbl ymwybodol o'r dull hwn a sicrhau bod cymorth i ddysgwyr yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio dull cyfannol.

### c. Athrawon, Staff Cymorth ac Aelodau Eraill o Staff

Gellir gofyn i unrhyw aelod o staff yn yr ysgol roi cymorth i ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu oruchwylio'r broses o weinyddu meddyginiaethau. Mae'r rôl hon yn gwbl wirfoddol oni bai ei bod yn



rhan o gontract, telerau ac amodau'r aelod staff neu gynllun swydd y cytunwyd arno gan y naill a'r llall. Bydd staff sy'n gwirfoddoli neu sydd dan gontract i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael hyfforddiant digonol ac addas i gyflawni'r lefel angenrheidiol o gymhwysedd.

Yn ogystal bydd yr ysgol yn sicrhau bod staff:

- i. Yn deall polisiâu a threfniadau anghenion gofal iechyd yr ysgol yn llawn.
- ii. Yn ymwybodol o ba ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd mwy difrifol neu gronig, a lle bo'n briodol, eu bod yn gyfarwydd â CGIU y dysgwyr hyn. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i gyfathrebu â rhieni/gofalwyr a beth yw'r sbardunau ar gyfer cysylltu â nhw, megis pan fo'r dysgwr yn sâl, yn gwrthod cymryd meddyginiaeth neu'n gwrthod rhai gweithgareddau oherwydd eu hanghenion gofal iechyd.
- iii. Yn ymwybodol o arwyddion, symptomau a sbardunau cyflyrau meddygol cyffredin sy'n bygwth bywyd a'u bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae hyn yn cynnwys gwybod pwy yw'r swyddogion cymorth cyntaf a gofyn am eu cymorth os bydd argyfwng meddygol yn digwydd.
- iv. Yn deall gweithdrefnau brys yr ysgol yn llawn a bod yn barod i weithredu mewn argyfwng.
- v. Yn gofyn a gwrando ar farn dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, y dylid eu hystyried wrth roi cymorth ar waith.
- vi. Yn sicrhau bod dysgwyr (neu eu ffrindiau) yn gwybod wrth bwy i ddweud os ydynt yn teimlo'n sâl, angen cymorth neu newidiadau i'w cefnogi.
- vii. Yn gwrando ar bryderon dysgwyr os ydynt yn teimlo'n sâl ar unrhyw adeg ac ystyried yr angen am gymorth meddygol (yn enwedig yn achos anawsterau anadlu a gofnodwyd).
- viii. Yn sicrhau nad yw dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu heithrio o weithgareddau y maent yn dymuno cymryd rhan ynddynt heb reswm clir yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys unrhyw dripiâu/ymweliadau allanol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at eu meddyginiaeth a bod aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol yn bresennol i gynorthwyo pan fo angen.
- ix. Yn ymwybodol o faterion bwlio a llesiant emosiynol o ran dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, ac yn barod i ymyrryd yn unol â pholisi'r ysgol.
- x. Yn ymwybodol y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar allu dysgwr i ddysgu a darparu cymorth ychwanegol pan fo angen.
- xi. Yn cefnogi dysgwyr sydd wedi bod yn absennol a'u helpu i ddal i fyny ar waith a gollwyd – gall hyn olygu gweithio gyda rhieni/gofalwyr a gwasanaethau arbenigol.
- xii. Yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael gwybod sut mae'r angen gofal iechyd yn effeithio ar y dysgwr yn yr ysgol. Gall hyn gynnwys rhoi

gwybod am unrhyw ddirywiad, pryderon neu newidiadau i drefn ddyddiol y dysgwr neu'r staff.

#### **ch. Rhieni/Gofalwyr/Dysgwyr**

Mae dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio cymorth a rheolaeth o anghenion gofal iechyd ac yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar iechyd dysgwr. Rhoddir gwybodaeth briodol i rieni/gofalwyr a dysgwyr sy'n hanfodol ar gyfer iechyd a datblygiad y dysgwyr.

Bydd rhieni/gofalwyr/dysgwyr:

- i. Yn derbyn diweddariadau ynghylch materion/newidiadau gofal iechyd sy'n digwydd o fewn yr ysgol.
- ii. Yn rhan annatod o greu, datblygu ac adolygu CGIU (os o gwbl). Gall y rhiant a'r dysgwr fod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwybodaeth am sut mae eu hanghenion gofal iechyd yn effeithio arnynt. Dylent gael eu cynnwys yn llawn mewn trafodaethau ynghylch sut y bydd anghenion gofal iechyd y dysgwr yn cael eu diwallu yn yr ysgol, a chyfrannu at ddatblygu eu CGIU a chydymffurfiaeth ag ef.
- iii. Yn darparu gwybodaeth ddigonol a chyfredol am anghenion gofal iechyd i'r ysgol, gan gynnwys unrhyw ganllawiau ynglŷn â rhoi meddyginiaethau a/neu driniaeth gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd. Lle bo'n briodol, dylid annog a galluogi dysgwyr i reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.
- iv. Yn hysbysu'r ysgol am unrhyw newidiadau megis y math o feddyginiaeth, dos neu ddull o weinyddu.
- v. Yn darparu meddyginiaethau perthnasol, wedi'u labelu'n gywir, gyda dos ysgrifenedig a chyfarwyddiadau gweinyddu.
- vi. Yn sicrhau bod modd cysylltu ag oedolyn enwebedig bob amser a bod yr holl ffurflenni angenrheidiol yn cael eu llenwi a'u llofnodi.
- vii. Yn rhoi gwybod i'r ysgol os oes gan eu plentyn glefyd heintus/wedi cael clefyd heintus neu gyflwr tra'i fod yn bresennol.

Dylai dysgwyr:

- i. Hysbysu rhiant/gofalwr neu aelod(au) o staff os ydynt yn teimlo'n sâl.
- ii. Cymryd rhan mewn drafftio a chytuno ar eu cynllun gofal iechyd unigol (CGIU), lle bo'n briodol.
- iii. Cymryd gofal wrth gario meddyginiaeth i'r ysgol ac oddi yno, a pheidio â rhannu ag eraill.
- iv. Cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch rhannu/cyfrinachedd gwybodaeth bersonol.

#### **d. Yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol (ALI) yn gweithio gydag ysgolion, y byrddau iechyd lleol, rhieni/gofalwyr a gofalwyr a dysgwyr i sicrhau bod anghenion gofal

iechyd yn cael eu nodi a bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud i ddiwallu'r anghenion hynny.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn:

- i. Gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael addysg addas.
- ii. Gwneud trefniadau i ddarparu addysg addas pan na fyddai dysgwr o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod oherwydd ei iechyd.
- iii. Gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc anabl dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion. Bydd hyn yn cynnwys datblygu Strategaeth Hygyrchedd.
- iv. Hyrwyddo cydweithredu rhwng gwahanol gyrff er mwyn gwella llesiant corfforol a meddyliol dysgwyr, gan gynnwys gwneud trefniadau i rannu gwybodaeth.
- v. Gwneud darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed a dysgwyr mewn ysgolion cynradd.
- vi. Darparu cymorth, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys sut i ddiwallu anghenion hyfforddiant staff ysgolion, fel y gall cyrff llywodraethu sicrhau'r cymorth a nodir yn y cynllun gofal iechyd unigol.
- vii. Darparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Abertawe.

#### **dd. Gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill**

Gall gweithwyr iechyd proffesiynol arbenigol ddarparu cyngor a chymorth iechyd - Meddygon Teulu, Pediatregwyr, Therapyddion Iaith a Lleferydd, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Dietegwyr a Nyrsys Arbenigol. Gall y nyrs ysgol a enwir ar gyfer ysgolion prif ffrwd gynghori a chyfeirio at gydweithwyr iechyd arbenigol priodol. Hefyd, gall cyrff gwirfoddol y trydydd sector ddarparu cyngor a chymorth ymarferol. Gall ymgysylltu'n rhagweithiol â gwasanaethau arbenigol roi help ymarferol wrth ysgrifennu a gweithredu CGIU. Gall y math o gymorth y gall y gwasanaeth ei gynnig gynnwys:

- i. cynnig cyngor ar ddatblygu CGIU
- ii. cynorthwyo i adnabod yr hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y lleoliad addysg i weithredu CGIU yn llwyddiannus
- iii. cefnogi staff i weithredu CGIU dysgwr drwy gyngor a chyswllt â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.
- iv. darparu adnoddau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, gan gynnwys cysylltiadau fideo

#### 4. Creu Amgylchedd Hygyrch

Mae'r ysgol a'r corff llywodraethu wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol a hygyrch. Amlinellir ein cynlluniau ar gyfer gwella hygyrchedd yr ysgol yng Nghynllun Hygyrchedd yr ysgol.

Rydym hefyd yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod dysgwyr anabl yn gallu cael mynediad i bob agwedd ar fywyd yr ysgol drwy weithio gyda'r ALI i sicrhau bod ganddynt gymhorthion, gwasanaethau a staff hyfforddedig priodol.

##### a) Pob Gweithgaredd Oddi ar y Safle

Rydym yn cefnogi'n weithredol pob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau oddi ar y safle gan gynnwys tripiâu a gweithgareddau preswyl a gwneud addasiadau rhesymol i dripiâu ac ymweliadau preswyl er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn gan bob dysgwr.

Mae staff yn ymwybodol o sut y gallai anghenion gofal iechyd dysgwr effeithio ar gyfranogiad, ac maent yn ceisio darparu ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n cynyddu lefel cyfranogiad y dysgwr.<sup>6</sup> Rydym yn rhannu gwybodaeth briodol gyda darparwyr oddi ar y safle fel y bo angen gyda chaniatâd rhieni a gofalwyr ac yn gofyn am farn y dysgwr hefyd.

##### b) Rhyngweithiadau cymdeithasol

Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau cymdeithasol strwythuredig ac anstrwythuredig, megis yn ystod egwyliâu, clwb brechwast, cynyrchiadau, clybiau ar ôl oriau ac ymweliadau preswyl. Mae'r staff yn ymwybodol o'r rhwystrau posibl i gynhwysiant ac yn gwneud addasiadau rhesymol i sicrhau cynhwysiant.

Mae gennym ethos cryf sy'n hybu cynhwysiant a hawliau'r plentyn ac sy'n defnyddio dulliau adferol i fynd i'r afael â phroblemau posibl bwlio ac allgau cymdeithasol.

##### c) Ymarfer corff a gweithgarwch corfforol

Deallwn bwysigrwydd sicrhau bod pob dysgwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a bod staff yn gwneud addasiadau priodol i chwaraeon a gweithgareddau eraill i'w gwneud yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys clybiau ar ôl oriau a chwaraeon tîm.

Rydym yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwyr wrth gynllunio gweithgareddau corfforol ac yn ceisio barn y dysgwr, ei

---

<sup>6</sup> Gall y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb fod yn berthnasol yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

rieni/gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol wrth gynllunio. Lle y bo'n bosibl, rydym yn sicrhau bod pob gweithgaredd corfforol yn hygyrch i bob dysgwr.

### **ch) Rheolaeth bwyd**

Rydym yn ofalus i ystyried anghenion deietegol dysgwyr ag anghenion gofal iechyd ac mae ein staff cegin yn gallu darparu rhestrau o gynhwysion ac arddangos unrhyw alergenau posibl ar gyfer y prydau y maent yn eu cyflenwi. Deallwn y gall fod angen i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd fwyta ac yfed yn y dosbarth a bod byrbrydau ar gael.

Nodir gofynion y dysgwyr unigol o ran diet a derbyn bwyd yn eu cynllun gofal iechyd unigol a'u cyfleu i'r holl staff.

### **d) Asesiadau risg**

Cynhelir asesiad risg priodol ar gyfer yr holl weithgareddau yn yr ysgol a'u cofnodi'n ffurfiol gan aelodau staff priodol. Cynhelir asesiadau risg penodol gyda'r holl ddisgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd penodol, gan ymgynghori'n llawn â'r rhiant/gofalwr a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol a chynnwys barn y dysgwr.

## **5. Rhannu gwybodaeth**

Mae ein polisi gofal iechyd ar gael ar-lein ac fel copi caled ar gais.

Wrth rannu gwybodaeth ag eraill rydym yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data yr UE 2018.

Gofynnir i rieni/gofalwyr lofnodi ffurflen gydsynio sy'n nodi'n glir y cyrff, yr unigolion a'r dulliau y rhennir gwybodaeth feddygol eu dysgwr drwyddynt. Bydd y dysgwr hefyd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am rannu gwybodaeth feddygol. Mae'r ysgol yn cadw cofnod o ba wybodaeth sy'n cael ei rhannu a chyda phwy.

## **6. Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheolaeth anghenion gofal iechyd dysgwyr**

Mae'r ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau bod manylion cyswllt y gwasanaethau brys ar gyfer unigolion ag anghenion gofal iechyd wedi'i atodi i'w CGIU.

Cedwir cofnodion o'r wybodaeth ganlynol:

1. Cytundeb rhieni i'r lleoliad addysgol weinyddu meddyginiaeth
2. Cytundeb y pennaeth i weinyddu meddyginiaeth
3. Cofnod o feddyginiaeth gaiff ei storio a'i gweinyddu i ddysgwr unigol
4. Cofnod o feddyginiaethau a weinyddwyd i bob dysgwr yn ôl dyddiad
5. Cais i ddysgwr weinyddu eu meddyginiaeth eu hunain
6. Cofnod hyfforddiant staff – gweinyddu meddyginiaethau

7. Adroddiad ar ddigwyddiad yn ymwneud â meddyginiaeth
8. Gwrthod cymryd meddyginiaeth
9. CGIU

Cwblheir cofnodion newydd pan fydd newidiadau i feddyginiaeth neu ddos ac fe'u cedwir yn gyfrinachol.

Nodir y broses o gynhyrchu CGIU yn Atodiad 2.

## 7. Storio, mynediad a gweinyddu meddyginiaeth a dyfeisiau

### a) Cyflenwi meddyginiaeth neu ddyfeisiau

Nid ydym yn storio meddyginiaeth dros ben. Gofynnir i'r rhieni ddarparu cyflenwadau priodol o feddyginiaeth. Dylai'r rhain fod yn eu cynhwysydd gwreiddiol, wedi'u labelu gydag enw'r dysgwr, enw'r feddyginiaeth, dos ac amllder, a'r dyddiad dod i ben. Dim ond meddyginiaethau a dyfeisiau rhagnodedig y byddwn yn eu derbyn:

- i. sydd yn gyfredol
- ii. gyda'r cynnwys wedi'i labelu'n gywir ac yn glir
- iii. wedi'u labelu ag enw'r dysgwr
- iv. gyda chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu, dos a storio
- v. yn eu cynhwysydd/pecynnu gwreiddiol fel y'u gweinyddwyd gan y fferylllydd (ac eithrio inswlin sydd ar gael fel arfer drwy ben neu bwmp inswlin).

Nid ydym yn cyflenwi meddyginiaethau di-bresgripsiwn fel paracetamol hylifol, ac ni ddylai lleoliadau weinyddu aspirin na'i ddeilliadau oni bai ei fod wedi'i ragnodi. Gall rhieni ofyn i feddyginiaeth ddi-bresgripsiwn heblaw aspirin gael ei storio gan yr ysgol ond dim ond os yw'r feddyginiaeth:

- i. yn gyfredol
- ii. wedi'i gynnwys yn gywir ac wedi'i labelu'n glir
- iii. wedi'i labelu ag enw'r dysgwr
- iv. gyda chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu, dos a storio - gall hyn fod gan y rhiant
- v. yn ei gynhwysydd/pecynnu gwreiddiol.

### b) Storio, mynediad a gwaredu

Dylid storio pob meddyginiaeth yn ddiogel yn dibynnu ar y math o feddyginiaeth a'r defnydd ohoni, a allai gynnwys oergell. Mae'n bwysig i staff a dysgwyr wybod ble mae eu meddyginiaeth yn cael ei storio a sut i gael gafael arni.

- i. **Meddyginiaeth frys**

Rydym yn sicrhau bod meddyginiaeth frys fel anadlwyr a phinnau chwistrellu awtomatig ar gael yn hawdd ac nid o dan glo. Os yw dysgwr yn gymwys i wneud hynny, efallai y bydd ei feddyginiaeth gyda nhw ond ni ddylai ei drosglwyddo i berson anawdurdodedig. Gall y rhiant/gofalwr gyflwyno cais i'r dysgwr gario/weinyddu ei feddyginiaeth ei hun a bydd yn ei drafod gyda'r staff perthnasol. Os oes gan staff bryderon, yna dylai'r rhiant/gofalwr drafod y rhain gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae unrhyw gais yn amodol ar adolygiad os tynnir sylw at bryderon/risgiau pellach. Mae darparu meddyginiaeth frys a'i diogelwch hefyd yn rhan o'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle gan gynnwys tripiâu a gweithgareddau preswyl.

Mae gan yr ysgol hefyd anadlydd salbutamol brys ar gyfer sefyllfaoedd lle nad yw dysgwr yn gallu dod o hyd i'w anadlydd ei hun. Ceir canllawiau ar ddefnyddio anadlwyr salbutamol brys yn: [Canllawiau ar ddefnyddio anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion](#). Mae anadlwyr brys yn cael eu prynu o'n fferyllfa gymunedol leol.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnal anadlydd salbutamol brys ar gyfer sefyllfaoedd lle nad yw dysgwr yn gallu dod o hyd i'w anadlydd ei hun. Ceir canllawiau ar ddefnyddio anadlwyr salbutamol brys yn: [Canllawiau ar ddefnyddio anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion](#). Mae anadlwyr brys yn cael eu prynu o'n fferyllfa gymunedol leol.

## **ii. Meddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth frys**

Cedwir yr holl feddyginiaethau nad ydynt yn rhai brys mewn man diogel, gyda rheolaeth tymheredd neu olau priodol. Os yw'n gyffur rheoledig, gweithredir mesurau a rheolaethau diogelwch ychwanegol yn ôl arweiniad staff iechyd arbenigol.

## **iii. Gwaredu meddyginiaeth**

Pan nad oes eu hangen mwyach, dylid dychwelyd meddyginiaeth i'r rhieni i drefnu eu gwaredu'n ddiogel. Dylid defnyddio blychau offer miniog i waredu nodwyddau ac offerynnau miniog eraill, a dylid gwneud trefniadau gwaredu priodol.

## **c) Gweinyddu meddyginiaethau**

- i. Pan fo'r dysgwr o dan 16 oed, mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan y rhiant i helpu neu weinyddu meddyginiaethau a ragnodwyd neu nad nas ragnodwyd. Cofnodir y modd y gweinyddir pob meddyginiaeth.
- ii. Pan ragnodir meddyginiaeth i'w chymryd mewn amllder sy'n caniatáu i'r cwrs dyddiol o feddygaeth gael ei weinyddu gartref, dylai rhieni geisio gwneud hynny, megis cyn ac ar ôl ysgol a gyda'r nos. Fodd bynnag, bydd achosion lle nad yw hyn yn briodol.
- iii. Ni roddir aspirin byth i ddysgwyr o dan 16 oed na'i ddeilliadau oni bai eu bod yn cael eu rhagnodi iddynt.

- iv. Oni bai bod cynllun y cytunwyd arno i'r dysgwr roi meddyginiaeth i'w hunain (16 oed a hŷn), dylai'r holl feddyginiaethau gael eu gweinyddu gan aelod o staff yn unol â'r CGIU.
- v. Dim ond staff sydd wedi cael hyfforddiant addas fydd yn rhoi meddyginiaeth. Bydd symudiad a lleoliad y staff hyfforddedig hyn ar y cyd â'r dysgwyr y maent yn eu cynorthwyo bob amser.
- vi. Dylai staff wirio'r dos uchaf a swm ac amser unrhyw ddos blaenorol a weinyddir.
- vii. Efallai y bydd angen i oedolyn o'r un rhyw â'r dysgwr i weinyddu gweithdrefnau meddygol penodol, ac efallai y bydd ail oedolyn yn dyst i hynny. Ysyrr meddyliau a theimladau'r dysgwr o ran nifer a rhyw y rhai sy'n cynorthwyo wrth ddarparu gofal personol. Nid yw'n ofynnol o dan y gyfraith fod mwy nag un person yn cynorthwyo.<sup>7</sup> Dylid cytuno ar hyn a'i adlewyrchu yn y CGIU a'r asesiad risg.
- viii. Dylai fod gan yr ysgol bolisi gofal personol<sup>8</sup> y dylid ei ddilyn, oni bai bod trefniadau eraill wedi'u cytuno, a'u cofnodi yn CGIU y dysgwr.
- ix. Os bydd dysgwr yn gwrthod ei feddyginiaeth, dylai'r staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau diffiniedig, gan roi gwybod i'r rhieni cyn gynted â phosibl. Os yw dysgwr yn camddefnyddio unrhyw feddyginiaeth, dylid hysbysu ei rieni cyn gynted â phosibl. Dylai'r lleoliad addysg ofyn i rieni geisio cyngor gofal iechyd fel y bo'n briodol. Os na ellir cysylltu â'r rhieni ar unwaith, mae angen i'r staff ystyried ceisio cyngor gofal iechyd ar unwaith.
- x. Hysbysir pob aelod o staff sy'n cefnogi ymweliadau oddi ar y safle o ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylent gael y wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y staff yn gallu hwyluso profiad y dysgwr, fel y bo'n ymarferol ac yn rhesymol. Gall y wybodaeth hon gynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth angenrheidiol arall sydd ei angen ar y dysgwr, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer.

## 8. Gweithdrefnau brys

Mae gan yr ysgol weithdrefnau yn eu lle ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd brys. Dylai staff wybod:

- i. pwy sy'n gyfrifol am y polisi a'r gweithdrefnau.
- ii. gweithwyr cymorth cyntaf enwebedig a sut i ddelio ag anghenion gofal iechyd cyffredin. Mewn sefyllfaoedd lle mae angen cymorth brys, dylid galw 999 ar unwaith.
- iii. lleoliad cofnodion gofal iechyd y dysgwyr a manylion cyswllt mewn argyfwng.

<sup>7</sup> [gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe.pdf](http://gov.wales/docs/dcells/publications/150114-keeping-learners-safe.pdf)

<sup>8</sup> Gellir diffinio gofal personol fel unrhyw ofal sy'n cynnwys golchi neu gynnal gweithdrefn i ardaloedd personol y mae'r rhan fwyaf o bobl fel arfer yn eu cyflawni eu hunain ond nid yw rhai dysgwyr yn gallu gwneud hynny oherwydd eu hoedran ifanc, anawsterau corfforol neu anghenion arbennig eraill. Ymhlith yr enghreifftiau mae gofal sy'n gysylltiedig ag ymataliaeth a rheolaeth mislif yn ogystal â thasgau o ddydd i ddydd fel help gyda golchi, toiled neu wisgo. Mae hefyd yn cynnwys goruchwyllo dysgwyr sy'n ymwneud â hunanofal personol.



Os oes gan ddysgwyr CGIU, dylai hyn ddiffinio'n glir beth yw argyfwng ac esbonio beth i'w wneud. Dylai staff fod yn ymwybodol o symptomau a gweithdrefnau argyfwng.

Dylai dysgwyr eraill yn yr ysgol hefyd wybod beth i'w wneud mewn termau cyffredinol mewn argyfwng, fel rhoi gwybod i aelod o staff yn syth.

Os oes angen mynd â dysgwyr i'r ysbyty, bydd aelod o staff yn aros gyda'r dysgwyr nes bod rhiant yn cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys eu hebrwng mewn ambiwlans i'r ysbyty. Dylai'r aelod o staff gael manylion unrhyw anghenion gofal iechyd a meddyginiaeth sy'n hysbys.

## 9. Hyfforddiant

Mae staff sy'n gwirfoddoli neu sydd dan gontract i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael hyfforddiant priodol. Mae'r corff llywodraethu a'r pennaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod nifer ddigonol o staff yn cael eu nodi i ddiwallu anghenion gofal iechyd pob plentyn yn yr ysgol.

Wrth gynorthwyo dysgwyr â'u hanghenion gofal iechyd, cydnabyddir nad oes angen unrhyw hyfforddiant arbenigol ar gyfer llawer o ymyriadau a rôl staff yw hwyluso'r dysgwyr i ddiwallu ei anghenion gofal iechyd ei hun.

Fodd bynnag, lle mae CGIU yn adlewyrchu anghenion cymhleth sy'n gofyn i staff gael gwybodaeth a hyfforddiant penodol caiff hyn ei ddarparu gan staff gofal iechyd neu arbenigwyr eraill. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhestr o'r staff iechyd y gellir cysylltu â hwy i ddarparu hyfforddiant mewn meysydd allweddol megis diabetes, asthma, alergeddau ac epilepsi. Rydym yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gofnodi a'i ddiweddarau ac mae'r wybodaeth hon ar gael i'r ALL ar gais.

Ar gyfer plant â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd, rydym yn gweithio'n agos gyda'r nyrs gofal lliniarol a rhennir y cynllun gofal uwch pediatrig (gyda chydysniad rhiant) gyda'r staff perthnasol rhag ofn y bydd dirywiad difrifol.

Cydnabyddir y gall yr holl staff, p'un ai ydynt wedi gwirfoddoli i gynorthwyo neu gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, ddod i gysylltiad â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Felly, mae gennym raglen hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau cyffredin i sicrhau bod symptomau'n cael eu cydnabod a deall ble a phryd i geisio cymorth priodol. Mae gan yr Awdurdod Lleol hefyd gynllun hyfforddiant a ddatblygwyd gyda gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer ysgolion.

Mae ein gweithdrefnau sefydlu yn sicrhau bod staff newydd a dros dro yn ymwybodol o'r mesurau ataliol a brys sydd ar waith fel y gallant adnabod yr angen am ymyrraeth ac ymateb yn gyflym.

Os nad yw'r staff hyfforddedig sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth ar gael, bydd y CGIU yn nodi trefniadau amgen.

## 10. Cymwysterau ac Aseidiadau

Ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd sy'n agosáu at aseidiadau, gan gynnwys y rhai sy'n eistedd arholiadau mewn ysbyty neu gartref, mae'r ysgol yn cysylltu â'r athro ysbyty neu'r athro cartref yn enwedig os yw'r dysgwr yn symud o'r ysgol neu'r cartref i'r ysbyty yn rheolaidd.

Bydd yr ysgol yn sicrhau:

- i. Cyflwyno ceisiadau am drefniadau arbennig i'r cyrff dyfarnu cyn gynted â phosibl.
- ii. Seilir addasiadau, cyfaddasiadau neu amser ychwanegol i ddysgwyr sy'n sefyll y profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn seiliedig ar arfer ystafell ddosbarth arferol ar gyfer anghenion penodol. Disgwylir i athrawon ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol i gefnogi dysgwyr.

## 11. Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)

Yn achos absenoldeb byr (sy'n debygol o bara am lai na 15 diwrnod ysgol) bydd yr ysgol yn darparu gwaith i'w gwblhau yn y cartref, os yw cyflwr y dysgwr yn caniatáu hynny, ac yn helpu'r dysgwr i ddal i fyny ar ôl dychwelyd. Os yw'r absenoldeb yn debygol o fod yn hwy na 15 diwrnod ysgol bydd yr ysgol yn cysylltu â'r ALI fel y gallant drefnu addysg briodol heblaw yn yr ysgol.

Lle y caiff absenoldebau eu rhagweld neu eu bod yn hysbys ymlaen llaw, dylai cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r ALI alluogi darparu'r gwasanaeth EOTAS o ddechrau'r absenoldeb.

Mae cyswllt agos rhwng athrawon cartref/ysbyty ac athrawon prif ffrwd yn sail i ddarparu rhaglen addysgol effeithiol ar gyfer y dysgwyr. Fodd bynnag, gall rhieni/gofalwyr hefyd weithredu fel cyswllt gwerthfawr.

Gall dysgwyr ag anghenion gofal iechyd cymhleth gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chynllun gofal ysgrifenedig. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd y cynllun gofal ysgrifenedig yn cael ei integreiddio i unrhyw CGIU. Cynhelir adolygiad o'r cynllun gofal iechyd cyn i'r dysgwyr dychwelyd i'r ysgol.

## 12. Cludiant Ysgol

Darperir cludiant ysgol yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod o dan y ddogfen *Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol* (2014).

## 13. Adolygu Polisiau, Trefniadau a Gweithdrefnau

Adolygir y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig gan y corff llywodraethu bob blwyddyn neu'n amlach fel y bo'n briodol gan ddibynnu ar ganllawiau a chylchlythyrau'r ALI a Llywodraeth Cymru.

Efallai y bydd angen adolygiadau amlach ar CGIU yn dibynnu ar anghenion gofal iechyd y disgybl. Trefnir adolygiadau CGIU gan yr ysgol ond byddant hefyd yn cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys, lle bo'n briodol, y dysgwr, rhieni/gofalwyr, gweithwyr addysg ac iechyd proffesiynol a chyrrff perthnasol eraill.

#### **14. Trefniadau Yswiriant**

Mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau:

- i. Bod yna lefel briodol o yswiriant ar gyfer gweithgareddau i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.
- ii. Dylai lefel yr yswiriant adlewyrchu lefel y risg yn briodol.
- iii. Efallai y bydd angen trefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau, e.e. gweithgareddau oddi ar y safle ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod lefel briodol o yswiriant ar waith i adlewyrchu lefel y risg gyffredinol ond dylai ysgolion holi'r tîm yswiriant os oes angen yswiriant ychwanegol ar gyfer gweithgaredd. Cyflwynwyd y polisi hwn hefyd i yswirwyr yr Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod yswiriant cynnwys digonol.

#### **15. Gweithdrefn Gwyno**

Os nad yw'r dysgwr neu'r rhiant yn fodlon gyda threfniadau gofal iechyd yn ein hysgol, mae ganddynt hawl i wneud cwyn fel a ganlyn:

- i. Trafod eu pryderon gyda'r athro/athrawes dosbarth/tiwtor dosbarth yn y lle cyntaf a dylid mynd i'r afael ag unrhyw faterion gyda nhw.
- ii. Os nad yw hyn yn datrys y broblem, dylid dod â'r broblem at aelod o'r tîm arweinyddiaeth, a fydd, lle bo angen, yn tynnu sylw'r pennaeth at y pryderon.
- iii. Os na fydd hyn yn datrys y mater, sy'n annhebygol, gall y rhiant wneud cwyn ffurfiol gan ddefnyddio trefn gwyno'r ysgol.

#### **16. Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)**

Mae CGIU yn nodi pa gymorth sydd ei angen ar ddysgwr, fodd bynnag, nid oes angen CGIU ar bob dysgwr ag anghenion gofal iechyd. Mae CGIU yn hanfodol lle mae anghenion gofal iechyd yn gymhleth, yn gyfnewidiol, yn hirdymor neu lle mae risg uchel y bydd angen ymyriad brys. Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r broses ar gyfer nodi a oes angen CGIU.

Mae'r pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau gofal iechyd unigol priodol a gweithdrefnau ar gyfer datblygu'r rhain ar waith lle mae eu hangen.

Anfonir copi o bob CGIU at yr Uwch Athro Arbenigol, Tŷ'r Cocyd, Heol y Cocyd, SA2 0FJ.

Mae profforma CIU enghreifftiol ar gael yn Atodiad 3.

## **17. Arfer Annerbyniol**

Mae'r ysgol a'r corff llywodraethu yn cytuno â'r arfer annerbyniol fel y nodir yn nogfen gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru (*Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd, 215/2017*). Nodir arfer annerbyniol yn Atodiad 4.

Caiff staff wybod am ymarfer annerbyniol drwy ddarparu gwybodaeth ar hysbysfyrddau a sesiynau briffio timau, a bydd hyfforddiant a/neu oruchwyliaeth briodol ar gael pan fo angen. Cylchredir ymarfer annerbyniol i bob aelod o staff fel briff newyddion.

**Atodiad 1****Manylion cyswllt ar gyfer Cynlluniau Gofal Iechyd a Materion Hyfforddiant Staff****Ysgol:**

- Asthma** - Mae'n bosibl cysylltu â nyrs anadlu drwy Cleifion Allanol Pediatrig  
01792 285248
- Gwybodaeth am Alergedd/Anaffylacsis (heblaw hyfforddiant epi-pen) –  
yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol**  
- i drefnu, cysylltwch ag Ysbyty Singleton 01792 205666
- Hyfforddiant epi-pen** drwy'r nyrs ysgol a ddyrannwyd i'r ysgol. Am unrhyw  
ymholiadau pellach, cysylltwch â rheolwr Tîm Nyrs Ysgol Abertawe - 01792  
516588 / 07908371735
- Iechyd Plant Cymunedol** 01792 517817
- Diabetes** –Nyrsys arbenigol – 07814254485  
07980 864288
- Endocrinoleg/Diabetes** – 07817 497696
- Adran Deieteg** – 01792 516565
- Epilepsi** – Nyrs Epilepsi - 07817 771743
- Cyngor ar fwydo a llyncu / dysffagia** –  
Therapydd Lleferydd ac Iaith 01792 517863
- Tiwbiau Bwydo** – Nyrs maeth 07800 963632
- Gofal Iliniarol** – Nyrs arbenigol - 07773 281621
- Oncoleg** – Nyrsys arbenigol – 02920746377  
02920716293

## Atodiad 2

### Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)

#### Adnabod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd

- Caiff dysgwr ei adnabod o'r ffurflen ymrestru neu lwybr arall.
- Mae'r rhiant neu'r dysgwr yn hysbysu'r ysgol o'r angen gofal iechyd.
- Cynhelir trafodaethau pontio mewn da bryd, e.e. wyth wythnos cyn diwedd y tymor neu symud i ysgol newydd.



#### Casglu gwybodaeth

- Os oes angen CGIU dylai'r lleoliad addysg drafod hyn gyda'r rhiant a'r dysgwr.



#### Sefydlu a ddylid gwneud CGIU

- Dylai'r ysgol drefnu cyfarfod gyda'r staff priodol, y rhieni, y dysgwr a chlinigwyr priodol i benderfynu a oes angen CGIU ar anghenion gofal iechyd y dysgwr, neu a fyddai hyn yn amhriodol neu'n anghymesur. Os na ellir dod i gonsensws, dylai'r pennaeth wneud y penderfyniad terfynol, y gellir ei herio drwy'r weithdrefn gwyno.



#### Os dylid gwneud CGIU

- Dylai'r ysgol, o dan arweiniad y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol, y rhieni a'r dysgwr, ddatblygu'r CGIU mewn partneriaeth.
- Dylai lleoliad yr ysgol nodi staff priodol i gefnogi'r dysgwr, gan gynnwys nodi unrhyw anghenion hyfforddiant a ffynhonnell yr hyfforddiant, a rhoi hyfforddiant ar waith.
- Dylai'r ysgol gylchredeg y CGIU i bob unigolyn priodol.
- Dylai'r ysgol bennu dyddiad adolygu priodol a diffinio unrhyw sbardunau eraill i'w hadolygu.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig o ran afiechydon tymor byr fel y rhai sydd angen cwrs gwrthfotigau, efallai na fydd CGIU manwl yn angenrheidiol. O dan amgylchiadau o'r fath, gall fod yn ddigonol cofnodi enw'r feddyginiaeth, y dos, yr amser a roddir ac unrhyw sgîl-ffeithiau posibl. Dylai'r gweithdrefnau hyn gael eu cadarnhau'n ysgrifenedig rhwng y dysgwr (lle bo'n briodol), y rhieni a'r ysgol.

Fodd bynnag, pan fydd gan ddysgwr anghenion gofal iechyd parhaus neu ysbeidiol, yna efallai y bydd angen CGIU. Os yw'r anghenion hyn yn gymhleth a bod y dysgwr yn newid lleoliad, yna dylai'r gwaith paratoi ddechrau'n gynnar er mwyn helpu i sicrhau bod y CGIU yn ei le ar ddechrau'r tymor newydd.

### **Rolau a chyfrifoldebau wrth greu a rheoli CGIU**

Dylai CGIU fod ar gael yn hawdd i bawb y mae angen iddynt gyfeirio ato, tra'n cynnal y lefelau gofynnol o breifatrwydd. Dylai pob cynllun gofnodi gwybodaeth allweddol a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol. Gall datblygu CGIU manwl gynnwys:

- i. y dysgwr
- ii. y rhieni
- iii. mewnbwn neu wybodaeth o leoliad ysgol blaenorol
- iv. gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol
- v. gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol
- vi. y pennaeth a/neu'r unigolyn cyfrifol dirprwyedig am anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad
- vii. athrawon a staff cymorth, gan gynnwys staff arlwyo
- viii. unrhyw unigolion sydd â rolau perthnasol megis cydlynnydd cymorth cyntaf, swyddog llesiant, a chydlynnydd anghenion addysgol arbennig (SENCo).

Er y dylai'r cynllun gael ei deilwra i bob dysgwr unigol, gall gynnwys:

- i. manylion yr angen am ofal iechyd a disgrifiad o symptomau
- ii. gofynion penodol megis gofynion deietegol, rhagofalon cyn-weithgaredd (e.e. cyn dosbarthiadau addysg gorfforol)
- iii. gofynion meddyginiaeth, e.e. dos, sgil effeithiau, gofynion storio, trefniadau ar gyfer gweinyddu
- iv. datganiad o'r effaith (a gynhyrchir ar y cyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac athro) ar sut mae cyflwr gofal iechyd y dysgwr a/neu driniaeth yn effeithio ar eu dysgu a pha gamau sydd eu hangen i liniaru'r effeithiau hyn
- v. y camau sy'n ofynnol
- vi. protocolau argyfwng a manylion cyswllt
- vii. y rôl y gall y lleoliad addysg ei chwarae, e.e. rhestr o bethau i fod yn ymwybodol ohonynt
- viii. dyddiadau adolygu a sbardunau adolygu
- xi. rolau staff penodol, e.e. pwynt cyswllt i rieni, staff sy'n gyfrifol am weinyddu/goruchwylio meddyginiaeth, a threfniadau ar gyfer cyflenwi yn eu habsenoldeb

- x. materion caniatâd/preifatrwydd/rhannu gwybodaeth sensitif
- xi. anghenion hyfforddiant staff, megis o ran gweinyddiaeth gofal iechyd, cymhorthion a thechnolegau addasol
- xii. cadw cofnodion – sut y bydd yn cael ei wneud, a pha wybodaeth sy'n cael ei chyfleu i eraill
- xiii. cludiant o'r cartref i'r ysgol – cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hyn, a allai ei chael yn ddefnyddiol bod yn ymwybodol o CGIU y dysgwr a'r hyn y mae'n ei gynnwys, yn enwedig mewn perthynas â sefyllfaoedd brys.

Nod y cynllun yw nodi'r camau y mae angen eu cymryd i helpu dysgwr i reoli ei gyflwr a goresgyn unrhyw rwystrau posibl i gymryd rhan lawn mewn addysg. Dylai'r rhai sy'n dyfeisio'r cynllun gytuno ar bwy fydd yn cymryd yr awenau, ond yr ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau a'i weithredu. Mae llawer o sefydliadau'r trydydd sector wedi cynhyrchu templed CGIU sy'n benodol i gyflwr y gellid ei ddefnyddio.

Adolygir cynlluniau o leiaf bob blwyddyn neu'n amlach os bydd tystiolaeth newydd bod anghenion y dysgwr wedi newid. Dylid eu datblygu gyda buddiannau gorau'r dysgwr mewn golwg a sicrhau bod yr ysgol, gyda gwasanaethau arbenigol (os oes angen), yn asesu'r risgiau i addysg, iechyd a llesiant cymdeithasol y dysgwr.

Os oes gan ddysgwr AAA, dylai'r CGIU gael ei gysylltu neu ei atodi wrth unrhyw gynllun addysg unigol, datganiad AAA, neu gynllun dysgu a sgiliau.

### **Cydgysylltu gwybodaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y dysgwr a rhieni**

Mae'r ffordd y rhennir anghenion gofal iechyd dysgwr â gweithwyr proffesiynol cymdeithasol a gofal iechyd yn dibynnu ar eu gofynion a'r math o ysgol. Dylai'r CGIU egluro sut y rhennir gwybodaeth a phwy fydd yn gwneud hyn. Gall yr unigolyn hwn fod yn bwynt cyswllt cyntaf i rieni a staff a byddai'n cysylltu ag asiantaethau allanol.

### **Cyfrinachedd**

Mae'n bwysig bod staff perthnasol (gan gynnwys staff dros dro) yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd eu dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i CGIU. Mae'n debygol y bydd CGIU yn cynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Rhaid i'r broses o rannu a storio gwybodaeth gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pheidio â thorri hawliau preifatrwydd neu ddyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolion.

### **Rôl y dysgwr wrth reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain**

Dylai dysgwyr sy'n gymwys i wneud hynny gael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu meddyginiaethau a'u gweithdrefnau eu hunain. Dylai hyn gael ei adlewyrchu o fewn CGIU y dysgwr.



Lle y bo'n bosibl, dylid caniatáu i ddysgwyr gario eu meddyginiaeth a'u dyfeisiau perthnasol eu hunain, neu allu cael gafael ar eu meddyginiaeth yn gyflym. Efallai y bydd angen lefel briodol o oruchwyliaeth ar rai dysgwyr.

Os yw dysgwr yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth neu gyflawni gweithdrefn angenrheidiol, ni ddylai staff eu gorfodi i wneud hynny, ond dilyn trefniadau diffiniedig y lleoliad, y cytunir arnynt yn y CGIU. Dylid hysbysu'r rhieni cyn gynted ag y bo modd fel y gellir ystyried trefniant arall a dylid ceisio cyngor iechyd lle y bo'n briodol.

### Atodiad 3



## Profforma Cynllun Gofal Iechyd ar gyfer Disgybl ag Anghenion Meddygol

**Enw:**

**Cyfeiriad:**

**Dyddiad Geni:**

**Enw'r Ysgol:**

**Dosbarth:**

**Cyflwr meddygol:**

**Dyddiad llunio'r cynllun:**

**Dyddiad adolygu:**

## **GWYBODAETH GYSWLLT**

### **Cyswllt Teulu 1**

**Enw:**

**Rhif Ffôn:**

**(gwaith):**

**(cartref):**

**(symudol):**

**Perthynas:**

### **Cyswllt Teulu 2**

**Enw:**

**Rhif Ffôn:**

**(gwaith):**

**(cartref):**

**(symudol):**

**Perthynas:**

### **Cyswllt Teulu 3**

**Enw:**

**Rhif Ffôn:**

**(gwaith):**

**(cartref):**

**(symudol):**

**Perthynas:**

**Meddyg Teulu**

**Enw:**

**Rhif Ffôn:**

**Cyswllt Clinig/Ysbyty**

**Enw:**

**Rhif Ffôn:**

**Disgrifiwch y cyflwr meddygol a rhowch fanylion symptomau unigol y disgybl:**

**Gofynion gofal dyddiol (e.e. cyn chwaraeon/amser cinio):**

**Disgrifiwch yr hyn sy'n argyfwng i'r disgybl, a'r camau i'w cymryd os yw hyn yn digwydd:**

**Gofal dilynol:**

**Pwy sy'n gyfrifol mewn argyfwng (nodwch os yw'n wahanol ar weithgareddau oddi ar y safle)**

**Llofnodwyd:**

**Proffesiynolyn Gofal Iechyd..... Dyddiad.....**

**Rhiant/gofalwr.....Dyddiad.....**

<b>Pennaeth</b> .....	<b>Dyddiad</b> .....
<b>ALNCO</b> .....	<b>Dyddiad</b> .....
<b>Rwy'n cydsynio i'r Cynllun Gofal Iechyd gael ei gopïo i'r Uwch Athro Arbenigol – Tŷ'r Cocyd, Tŷ Cwm, Heol y Cocyd, Cocyd, Abertawe, SA2 OFJ a'i storio'n ddigidol.</b>	
<b>Llofnodwyd:</b>	
<b>Rhiant/Gofalwr</b> .....	<b>Dyddiad</b> .....

**Ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â diabetes dylid atodi'r cynllun gofal diabetes cenedlaethol i'r CGIU.**

## Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys

(llenwch gyda manylion perthnasol yr ysgol)

### Cais am Ambiwylans

Deialwch 999, gofynnwch am ambiwlans a byddwch yn barod gyda'r wybodaeth ganlynol:

- 1. Eich rhif ffôn**
  - 2. Rhowch eich lleoliad fel a ganlyn (*rhowch gyfeiriad yr ysgol/lleoliad*)**
  - 3. Nodwch mai'r cod post yw**
  - 4. Rhowch yr union leoliad yn yr ysgol/lleoliad (*rhowch ddisgrifiad byr*)**
  - 5. Rhowch eich enw**
  - 6. Rhowch enw'r plentyn a disgrifiad byr o symptomau'r plentyn**
  - 7. Hysbyswch y Rheolaeth Ambiwylans am y fynedfa orau a datgan y bydd rhywun yn cwrdd â'r criw a'u cymryd i ...**
  - 8. Peidiwch â rhoi'r ffôn i lawr nes i'r wybodaeth gael ei hailadrodd yn ôl. Siaradwch yn glir ac yn araf a bod yn barod i ailadrodd gwybodaeth os gofynnir i chi wneud hynny.**
- Rhowch gopi wedi'i gwblhau o'r ffurflen hon wrth bob ffôn yn yr ysgol.**

## Atodiad 4

### Arfer Annerbyniol

Nid yw'n arfer derbyniol:

- i. Atal dysgwyr rhag mynychu'r ysgol oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, oni bai y byddai eu presenoldeb yn debygol o achosi niwed i'r dysgwr neu i eraill.
- ii. Atal dysgwyr rhag cael gafael ar eu hanadlwyr neu feddyginiaeth arall yn hawdd, a'u hatal rhag cymryd eu meddyginiaeth pan a lle bo angen.
- iii. Tybio fod angen yr un driniaeth ar bob dysgwr sydd â'r un cyflwr.
- iv. Anwybyddu barn y dysgwr neu ei rieni/gofalwyr, neu anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd (er y gall y safbwyntiau hyn gael eu cwestiynu gyda barn ychwanegol yn cael ei cheisio'n brydlon).
- v. Anfon dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gartref yn aml neu eu hatal rhag aros ar gyfer gweithgareddau arferol, gan gynnwys cinio, oni bai bod hyn yn cael ei nodi'n addas yn eu CGIU.
- vi. Anfon dysgwr sy'n mynd yn sâl neu sydd angen cymorth i ystafell feddygol neu brif swyddfa ar ei ben ei hun neu gyda rhywun nad yw'n gallu ei fonitro'n iawn.
- vii. Cosbi dysgwr am ei gofnod presenoldeb os yw'r absenoldeb yn gysylltiedig â'i anghenion gofal iechyd. Ni ddylid defnyddio 'absenoldebau awdurdodedig' gan gynnwys apwyntiadau gofal iechyd, amser i deithio i'r ysbyty neu apwyntiad, ac amser adfer o driniaeth neu salwch i gosbi dysgwr mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymryd rhan mewn gweithgareddau, tripiâu neu ddyfarniadau sy'n cael eu cymell ynglŷn â chofnodion presenoldeb.
- viii. Gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol i ddysgwr yn hwyr. Dylid gwneud cais amdanynt mewn da bryd. Dylid hefyd ystyried addasiadau neu amser ychwanegol sydd ei angen mewn ffug arholiadau neu brofion eraill.
- ix. Atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu gymryd seibiant toiled neu seibiannau eraill pan fo'u hangen er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd yn effeithiol.
- x. Ei gwneud yn ofynnol i rieni/gofalwyr, neu fel arall wneud iddynt deimlo bod rheidrwydd arnynt, i fynychu'r ysgol, taith neu weithgaredd arall oddi ar y safle i roi meddyginiaeth neu ddarparu cymorth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys materion yn ymwneud â mynd i'r toiled.
- xi. Disgwyl neu beri i riant roi'r gorau i'w gwaith neu ymrwymïadau eraill oherwydd bod yr ysgol yn methu â chefnogi anghenion gofal iechyd dysgwr.
- xii. Gofyn i ddysgwr adael yr ystafell ddisbarth neu'r gweithgaredd os bydd angen iddyn nhw weinyddu meddyginiaeth nad yw'n bersonol neu fwyta bwyd yn unol â'u hanghenion iechyd.

- xiii. Atal neu greu rhwystrau diangen i gyfranogiad dysgwr mewn unrhyw agwedd ar ei addysg, gan gynnwys tripiâu, e.e. drwy ei gwneud yn ofynnol i riant fynd gyda'r dysgwr.



## Atodiad 5: Templedi Ffurflenni

Gall ysgolion ddefnyddio'r ffurflenni a restrir isod yn ôl eu polisiâu penodol ar gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd:

- Ffurflen 1 – Cysylltu â'r gwasanaethau brys
- Ffurflen 2 – Cytundeb rhieni i'r lleoliad addysgol weinyddu meddyginiaeth
- Ffurflen 3 – Cytundeb pennaeth/pennaeth lleoliad i weinyddu meddyginiaeth
- Ffurflen 4 – Cofnod o feddyginiaeth gaiff ei storio a'i gweinyddu i ddysgwr unigol
- Ffurflen 5 – Cofnod o feddyginiaethau a weinyddwyd i bob dysgwr – yn ôl dyddiad
- Ffurflen 6 – Cais i'r dysgwr gario/gweinyddu eu meddyginiaeth eu hunain
- Ffurflen 7 – Cofnod hyfforddiant staff – gweinyddu meddyginiaethau
- Ffurflen 8 – Adroddiad am ddigwyddiadau yn ymwneud â meddyginiaeth/gofal iechyd

Gellir llawrlwytho'r ffurflenni hyn fel dogfennau Word o [gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/medicalneeds/?lang=en](http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/medicalneeds/?lang=en) i alluogi ysgolion neu leoliadau i'w personoli.

Mae'r awdurdod lleol hefyd yn gallu darparu copiâu o'r ffurflenni a ddsbarthwyd gyda'r polisi enghreiffiol.